

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 378 - 60c
Tachwedd 2019

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Llwyddiant mewn Eisteddfod



Tudalen 14

Cadwyn Cyfrinachau arall



Tudalen 10

Diacon yn cael ei enwebu



Tudalen 8

Cydnabod Caredigrwydd



Barry Davies a gerddodd llwybr arfordir Cymru mewn 30 diwrnod yn cyflwyno sic o £26,805.85 i Emma Shiggins, Ymchwiler Cancer Prydain yng nghlwb rygbi Llambod yn ddiweddar Yn y llun mae ei deulu a'i ffisio Cerys Davies hefyd.



Yn dilyn llwyddiant 'Brecwast Mawr Capel Brondeifi', cyflwynodd yr aelodau Maureen Evans, Mary Jones a Meleri Jones, Trysorydd, sic o £1271.50 i Twynog Davies ac Elaine Davies ar ran Apêl Ghana, Cymorth Cristnogol.



Hoffai'r merched ddiolch i bawb am y gefnogaeth a dderbyniwyd ym mhob ffordd tuag at eu Pnawn Pinc lle codwyd dros £5,000 tuag at Ysbyty Tywysog Phillip Llanelli.



Yn ystod Cinio Blynyddol Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant trosglwyddodd llywyddion y Sioe sef Eryl a Mary Price, sic o £4,200 i 'Colorectal Clinical Nurses', Ysbyty Glangwili. Gweler swyddogion y pwyllgor yn y llun hefyd.



Taith Dractor, Llanybi ar Fedi 29ain. Trosglwyddwyd yr elw o £1,812.55 i Carol Jones, cynrychiolydd Ambiwylans Awyr Cymru, gan Michelle Jones, trysorydd; Idwal Jones, Is Gadeirydd; Iwan Uridge, Cadeirydd ac Eryl Evans, Ysgrifennydd. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.



Cyflwynwyd sic o £11,150 i'r DPJ Foundation gan Lysgenhadon a Chadeirydd C.Ff.I. Sir Gâr. Codwyd y swm yma drwy noson Twrci Bingo, Noson hwyl a gemau a hefyd sialens y tri chopa Cymru nôl ar ddechrau'r haf.



Coed Nadolig *Parcyrhos* Christmas Trees

01570 434 393
07875 475 961

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llanbed, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305
07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

LHP

- CYFRIFWYR
- ARCHWILWYR
- YMGYNGHORWYR



CYFRIFWYR
SIARTREDIG
ICAEW

81 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AB



Uchafbwyntiau'r mis ar
clonc360.cymru

● DECHRAU DA I LANYBYDDER

Ar ddydd Sadwrn y 5ed o Hydref, dechreuodd Clwb Hoci Llanbydder eu tymor yng Nghynghrair 4 Hoci De Cymru, a dyma hanes y gêm yn erbyn Seintiau Eglwys Newydd.



● SÊR RYGBI IFANC LLEOL AR Y Ffordd i AWSTRALIA

Mae Jac Williams o Lanbed a Carwyn Rosser o Drefach, sydd ill dau yn chwaraewyr i Dîm Ieuenctid Clwb Rygbi Llanbed, wedi cael yr anrhydedd diweddar o gael eu dewis i ymuno â thaith BrisVegas 7s Stars Rugby 7s i Brisbane, Awstralia - cyfle rhy dda i'w golli!



● CYRSIAU LLEOL YN CYNNIG CYFLE I'R BRIFYSGOL

Fe fydd y Brifysgol yn Llanbed yn dod yn ganolfan ar gyfer cyrsiau i bobol leol, yn ôl cynllun newydd. Mae'r datblygiad wedi ei groesawu gan Faer y Dref, sy'n dweud ei fod yn cynnig dyfodol newydd i'r campws ar ôl pryderon am ei ddyfodol.



● MARCHNAD FFERMWYR AR Y Ffordd YN ÔL

Fe fydd Marchnad y Ffermwyr yn aildechrau yn Llanbed adeg y Pasg y flwyddyn nesa' - os bydd cynlluniau newydd yn dwyn ffrwyth. Ac os daw hi'n ôl, fe fydd Cyngor y Dref yn gofyn i Gyngor Ceredigion atal ffioedd parcio yn y dre' ar y bore hwnnw.

Ffili aros tan y papur nesa'?
- clonc360.cymru

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Tachwedd Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683
Rhagfyr Lois Williams, Crynfryn, Cwmann 422700
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards a Lois Williams.

Dylunydd y mis Gareth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683

Dosbarthwyr Eifion ac Yvonne Davies, Afallon, Drefach 480590
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Sian Roberts-Jones, Croesor 423313
Cwmsychpant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmeri 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llambled.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Cefnogi Eisteddfod Ddwl y Papurau Bro

Mis diwetha', cynhaliwyd Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion. Noson o hwyl a sbri yn Neuadd Felin-fach. Efallai eich bod chi'n disgwyl i fi adrodd am neuadd lawn a chystadlu brwd tan berfeddion nos ... ond na. Er bod rhyw ddeg o bapurau bro yn y sir, cynrychiolwyr o dri phapur bro yn unig fu'n cystadlu ar lwyfan yr eisteddfod. Da iawn Clonc, Llais Aeron a'r Angor am fentro, am baratoi ac am gefnogi. Mae gan y noson y potensial i fod yn un o brif ddigwyddiadau diwylliannol a sbort y sir, ond wn i ddim pam nad yw'n cael cefnogaeth, nac ychwaith yn denu cynulleidfâ. Mae cartre'r eisteddfod yn nyffryn Aeron yn enwog am ddoniau digri - onid yw'r hyn y mae Theatr Felin-fach a Theatr Gydweithredol Troed-y-rhiw yn gweithio at yr un nod, ac onid oes Clwb Ffermwyr Ifanc lewyrchus yn Felin-fach sy'n joio llwyfannu a chael sbri? Tybed ble'r oedd aelodau holl Glybiau Ffermwyr Ifanc eraill y sir? Bydde hon wedi bod yn noson hyfryd i gymdeithasu a chael practis bach erbyn Eisteddfod Sir CFfl, petai angen.


Ond waeth beth am ddiffyg cefnogaeth, fe gawsom ni hwyl. Roedd y ddau feirniaid - Calvin Griffiths ac Iwan Evans o ardal Talgarreg - yn dweud taw dyma'r nosweithiau llawen go iawn. Ac rydw i'n cytuno. Do, cafwyd pedair noson lwyddiannus o ffilmio Noson Lawen ar gyfer S4C ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid tua chanol y mis. Ond mae'r rhaglen deledu honno wedi teithio'n bell o'i gwreiddiau ar glos ffermydd. Bydde camera yn Eisteddfod Ddwl y Papurau Bro, gan ddangos yr holl droeon trwstan a'r miri - ac ie, hyd yn oed y camgymeriadau! - yn nes at hwyl a sbri go iawn cefn gwlad Ceredigion.

Rwy'n cofio athrawes ysgol yn dweud wrtha'i un tro, po fwya o ymdrech roia'i mewn i rywbeth, y mwya' ga' i mas ohono fe. Ac fel 'ny roedd hi yn Eisteddfod Ddwl y Papurau Bro. Oni bai ein bod ni'n griw - a diolch am y criw ddaeth ynghyd dan berswâd ein Cadeirydd, Dylan! - fydden ni ddim wedi cael hanner cymaint o sbort yn enw Clonc. Diolch am noson i'w chofio!

Cloncen



Cân actol Papur Bro Clonc yn ennill y wobwr gyntaf yn yr Eisteddfod Hwyl



Gwyneth Davies o Bapur Bro Clonc yn ennill y wobwr gyntaf am ddarllen darn heb atalnodi

Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.

Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?

Hoffech chi weinyddu'r wefan? Neu beth am waith dylunio?

Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant. Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes

Wedi meddwl hysbysebu yn eich papur bro?

Ceir prisiau rhesymol iawn

gan ddechrau gydag hysbyseb bach yn

£12 yn unig,

a dim ond £72 am ddeg ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

CYMRAG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Rhifyn Rhagfyr

yn y Siopau

5 Rhagfyr

Erthyglau, Newyddion a Lluniau i law erbyn

25 Tachwedd



TACHWEDD

- 10 Cyfweiliadau Teithiau Tramor C.Ff.I. Cymru.
- 10 Gwasanaeth Sul y Cofio am 1yp yn Drefach.
- 10 Cwrdd Pawb ynghyd Capel Caeronnen, Cellan am 2.00y.p.
- 11 Cinio blynyddol yn 'Dyffryn Aeron' Felin-fach. Adloniant gan Guto Jones.
- 13 Hyfforddiant Barnu Carcas C.Ff.I. Ceredigion.
- 16 John ac Alun a Clive Edwards yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint.
- 17 Ffair Nadolig Pontsian yn Neuadd Pontsian rhwng 10:30yb a 3yh.
- 19 Sioe Leave land/ Gadael tir gan Owen Shears a Gwilym Morus Baird am 7.30 yn Neuadd Ysgol Iau Bro Pedr. Perfformir yn Saesneg. Elw tuag at Gronfa Leol Llambled ar gyfer Eisteddfod 2020. Tocynnau Ann Morgan - 07791 966122, Carys Lloyd Jones - 07976 645957.
- 20 Cinio Nadolig Pwyllgor Lles Llanwnnen i henoed y pentref yng Nghegin Gareth am 12.30pm.
- 22 Chwaraeon Dan Do C.Ff.I. Ceredigion.
- 22 Cylch Meithrin Cledlyn yn cynnal noson Bingo yn Ysgol Dyffryn Cledlyn. I ddechrau am 7yh.
- 25-26 Ffair Aeaf ar faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanellwedd.
- 30 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Aston Hall, Wrecsam.
- 30 Ffair Nadolig rhwng 10.30y.b. - 12.30y.p. yng Nghanolfan Deuluol Llanybydder (wedi ei lleoli yng Nghwm Aur).

RHAGFYR

- 2 Cynhelir plygain Llambled am 7 o'r gloch, yng Nghapel y Brifysgol. Croeso cynnes i bawb.
- 5 Sioe "Oliver" Ysgol Bro Pedr yng Nghanolfan y Celfyddydau am 1.15 a 6.30.
- 7 Ffair Nadolig yn Ysgol Llanllwni. Trefnir gan Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol a'r Ysgol feithrin. Bydd yno amrywiaeth o stondinau, raffl, ymweliad gan Santa a lluniaeth. Croeso cynnes i bawb.
- 7 Ysgol a Chylch Meithrin Llanybydder yn cynnal Ffair Nadolig am 10.00y.b. yn Neuadd yr Ysgol. Stondinau, adloniant gan y plant ac ymweliad gan Siôn Corn.
- 8 Gwasanaeth Golau'r Gannwyll Capel Caeronnen, Cellan am 2.00y.p.
- 13 Bingo Twrci yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 7:30 y.h.
- 14 Carol, Cerdd a Chân Eglwys San Pedr, Llambled am 7y.h.
- 15 Gwasanaeth Nadolig blynyddol Côr Lleisiau'r Werin, yn Eglwys Sant Pedr, Llanybydder am 6.30y.h.
- 15 Cyngerdd a Noson o Garolau yng nghwmni Bois y Rhedyn yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 7:30 y.h.
- 17 Bingo Cylch Meithrin Llanybydder am 8.00y.h. yng Nghlwb Rygbi Llanybydder.
- 24 Gwasanaeth Garolau yn Hen Gapel Llwynrhydowen am 9.00y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 25 Cwrdd Undebol yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant am 9.00y.b. Croeso cynnes i bawb.

2020

IONAWR

- 25 Cyngerdd 'Ar wasgar' gydag Elin Jones, Llambled a Band Tref Llandeilo yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers. Fe fydd yn dechrau am 7:30 y.h. Yr elw i'w rannu rhwng Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Ceredigion 2020 ag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llanymddyfri 2021.

CHWEFROR

- 22 Cyngerdd yng nghwmni Côr Crymmych yn cychwyn am 7:30 y.h.

MAWRTH

- 6 Bwffé a noson yng nghwmni y Prifardd Tudur Dylan i gychwyn am 7:30 y.h yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers.
- 7-8 Gŵyl Adloniant C.Ff.I. Cymru.

MEHEFIN

- 13 Cinio CFFI Cwmman i ddathlu'r 60.

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
 - Unrhyw waith
- o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Peiriannydd Gwres Canolog
Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler

Ffôn: 07811052757

Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymptau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com



CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmman

01570 423921

07867 945174

Plymio a Gwresogi DANIEL DOUGHTY Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
Maintenance • Breakdowns
Boiler Servicing • Sprinklers

07969 289679
d.doughtyplumbing@gmail.com



Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Sefydlwyd 1797


D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

**Masnachwyr-coed, ffensiô
a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau**

Ysgol y Dderi



Blwyddyn 3 a 4 yn cael gweithdy yng Nghanolfan y Celfyddydau



Blychau Romania



Cwrdd diolchgarwch cyfnod allweddol 2 yn Eglwys Gartheli, Llwyn-y-groes



Parti Calan Gaeaf ar ddiwedd yr hanner tymor



Y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau sioe Sbri-di-ri yn Ysgol Henry Richard



Techniquest yn dod â'i Starlab i'r ysgol

Fel sbardun i'w thema "Clic! Clic! Y Dderi!" aeth disgyblion blwyddyn 3 a 4 ar daith i fyny i Aberystwyth. Yn y Llyfrgell Genedlaethol, buon nhw'n edrych ar gasgliad nodedig John Thomas o ffotograffiaeth Oes Fictoria. Roedd John Thomas yn enedigol o Lanfair Clydogau ac mae ei rieni wedi eu claddu ym mynwent Eglwys Cellan. Ymlaen wedyn i Ganolfan y Celfyddydau ble cawsant weithdy hwylus dros ben. Roeddent eisoes wedi tynnu lluniau â ffilm draddodiadol a chawson nhw weld eu lluniau ar ffurf negatïf yn gyntaf. Wedyn, cawson nhw'r profiad o ddatblygu ffotograffau unigol yn yr ystafell dywyll. Dyma beth oedd cyffro mawr! Cafodd disgyblion blwyddyn 1 a 2 flas ar Siapan yn llythrennol yn ddiweddar pan ddaeth

Rhiannon a Siôn Tansley o gwmni Swshi Cymru i gynnal gweithdy yn yr ysgol. Bu'r plant hefyd yn dysgu geiriau Siapaneaidd, ysgrifennu geiriau, dylunio blychau swshi ac yn gwneud Ymarfer Corff yn dilyn dull plant Siapan. Diolch i'r Asiantaeth Safonau Bwyd am ddod â'i sioe ryngweithiol i'r ysgol. Cafwyd perfformiad bywiog, llawn hwyl i drosglwyddo neges bwysig iawn am hylendid bwyd.

Teithiodd Mrs Heini, Miss Lilian, Sam, Albie, Anna, Beca ac Asha i Neuadd y Cyngor yn Llandrindod er mwyn rhoi cyflwyniad ar "Godi safonau llythrennedd a rhifedd trwy brofiadau dysgu cyffrous". Roedd y plant wedi gwneud eu gwaith â graen ac roedd penaethiaid ysgolion Powys wedi mwynhau yn fawr. Aeth

y Cyfnod Sylfaen i fwynhau sioe Sbri-di-ri yn Ysgol Henry Richard yn ddiweddar. Diolch Mr Urdd a diolch i Sam Ebenezer am ein harwain. Diolch i deulu Penparc am ganiatáu ymweliad gan ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 i weld Tŵr Y Dderi. Mr Odwyn oedd yn ein harwain a chawsom hanesion difyr iawn am y tŵr a phlasty Deri-Ormond yn ei gwmni. Diolch yn fawr. Braint oedd cael ein gwahodd i berfformio yng Nghymanfa Ganu CFFI Bro'r Dderi yng Nghapel Bethel, Silian. Cawsom noson hwylus dros ben yng nghwmni Elli Dafydd, Lowri Elen a Gethin Morgan. Bu'r côr yn perfformio eitem a chafwyd unawd hyfryd gan Beca.

Croesawyd pymtheg ymwelydd o Ewrop i'r ysgol i gynnal cyfarfod

cynllunio am ein prosiect Erasmus+ eleni. Daeth cynrychiolaeth o Latfia, Norwy, Slofenia a'r Eidal i Ysgol Y Dderi. Cawsom gyfle i ddatblygu syniadau am gymhwysedd digidol gan mai dyma fydd ffocws y gwaith. Diolch i Howard Adair, Guto Aaron, Ysgol Melin Gruffydd a Mamis Mentrus am eu cyflwyniadau perthnasol. Diolch arbennig i Miss Jen a'r Clwb Coginio am baratoi cinio Cymreig, blasus iddynt bob dydd. Diolch yn fawr i Ceredigion Actif am drefnu bore o weithgareddau hwylus ar gyfer disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn Ysgol Bro Pedr. Diolch hefyd i'r llysgenhadon efydd ifanc am eu help i gynnal y gweithgareddau. Casglodd Mr Burgess lond car o flychau anrhegion i'w dosbarthu i blant llai

Ysgol y Dderi

ffodus yn Romania. Roedd y plant yn falch iawn i gael cyfle i gyfrannu.

Ar ran yr ysgol, mynychodd Asha a Beca weithdy ar Hawliau'r Plant yn Llangrannog. Cawsom nhw'r cyfle i gwrdd â Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru. Rhannwyd syniadau niferus ar sut i godi proffil hawliau'r plant, felly mae gwaith i'w wneud nôl yn yr ysgol. Dathlwyd Diwrnod T Llew, Brenin Llenyddiaeth Plant Cymru ar 11eg o Hydref. Bu disgyblion blwyddyn 1 a 2 yn dilyn hynt a helynt Twm Sion Cati a disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn mwynhau gweithgareddau am Barti Ddu. Astudio cerdd Cwm Alltcafan wnaeth blwyddyn 5 a 6 ar ôl creu ffeil ffeithiau am y Brenin ei hun. Daeth Techniquest â'i Starlab i'r ysgol sef pabell anferth siâp hanner sffêr. Roedd yn llenwi'r neuadd! Tu fewn i'r babelldywyll, taflwyd lluniau rhyfeddol o blanedau a chytserau sêr a chafwyd gwers wyddonol arbennig. Roedd plant y Cyfnod Sylfaen wrth eu boddau drwy'r bore! I ddathlu eu thema "Ditectifs ar daith" cynhaliwyd Diwrnod Gofodwyr i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Roedd pawb wedi mwynhau'r holl weithgareddau sef rhifedd y gofod, cwrs antur gofodol, cynnal arbrofion, addurno cacennau a chwarae rôl.

Cynhaliwyd tri chwrdd diolchgarwch gan yr ysgol. Bu'r cyfnod sylfaen yn Eglwys Llanybi, cyfnod allweddol 2 yn Eglwys Gartheli, Llwyn-y-groes ac yna cawsom wasanaeth ysgol gyfan nôl yn yr ysgol gyda'n ffrindiau o Hafan Deg. Casglwyd £190 tuag at Ambiwylans Sant Ioan. I ddathlu gwaith thema "Clic! Clic! Y Dderi!" gan ddisgyblion blwyddyn 3 a 4, cynhaliwyd arddangosfa ffotograffiaeth yn neuadd yr ysgol. Cafwyd casgliadau unigol o ffotograffau du a gwyn a ffotograffau lliw. Cafwyd arddangosfa ddigidol o waith y plant hefyd. Llwyddwyd i werthu nifer fawr o'r cynnyrch hefyd!

Ydych chi wedi meddwl beth yw 7 rhyfeddod Cymru? Wel dyma oedd testun cyflwyniadau blwyddyn 5 a 6 fel uchafbwynt i'w thema yn ystod yr hanner tymor yma. Daeth Mr Odwyn i feirniadu'r cyflwyniadau a chafodd pob un disgybl wobwr am waith clodwiw. Roedd Stadiwm y Principality yn

boblogaidd iawn a chafwyd nifer o gynigion eraill megis y Mabinogion, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Ynys Llanddwyn, Llyn y Fan, Cantre'r Gwaelod, Yr Wyddfa a llawer mwy! Diolch i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu Parti Calan Gaeaf gwyh i'r disgyblion ar ddiwedd yr hanner tymor. Diolch i Bethan Griffiths Payne a Lili Branwen am feirniadu'r bwmpen orau a'r wisg ffansi orau. Diolch i Mr Adair am gynnal disgo bywiog a diolch i Miss Jen a'r Clwb Coginio am gynnal y Caffi Cwl i rieni. Diweddglo llawn hwyl i hanner tymor prysur a llwyddiannus dros ben.



Croesawu pymtheg ymwelydd o Ewrop i'r ysgol i gynnal cyfarfod cynllunio ar gyfer y brosiect Erasmus+

Llangybi



Cyngor Cymuned Llangybi

Dathlwyd gwasanaeth maith Mair Spate fel clerc Cyngor Cymuned Llangybi yn gynharach y flwyddyn hon gyda chinio yng Ngwesty'r Talbot yn Nhregaron. Mwynheuodd y Cyngorwyr ynghyd â Mair Spate y cinio ac fe'i chyflwynwyd gydag anrheg, sef bwrdd bara wedi'i gerfio yn nodi'r dathliad a thusw o flodau fel gwerthfawrogiad o'i 37 mlynedd o wasanaeth gwerthfawr i'r gymuned. Dywedodd Mair Spate, er ei bod yn mwynhau ei hymddeoliad, mae hi'n cadw mor brysur ag erioed.

Merched y Wawr Y Dderi

Ar brynawn hyfryd yng nghanol Medi fe aethpwyd am ymweliad i LAS. Yno cawsom groeso cynnes a hanes sefydlu'r gweithle ailgylchu gwastraff y fro. Mae'r lle wedi

datblygu yn enfawr ac yno erbyn hyn mae holl wastraff Ceredigion yn cael ei brosesi. Ymlaen wedyn i gael te yn y Sosban ac yno cawsom luniaeth bendigedig a chroeso hyfryd. Talwyd y diolchiadau gan ein llywydd Deborah Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mair Spate a'r enillwyr oedd Odwyn Davies, Gwyneth Jones a Rita Jones. Treuliwyd orig hamddenol yn ystod mis Hydref yng nghwmni ein gwraig wadd Hazel Thomas. Bu'n sôn am hanes ei theulu a fu'n byw yng nghefn gwlad de Ceredigion yn yr un lle am dros gan mlynedd. Diolchwyd iddi am noson ddiddorol gan Irene Lewis. Rhoddwyd y raffl gan Rita Jones ac fe'u henillwyd gan Gwyneth Evans. I ddiweddu'r cyfarfod, cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei roi gan Mary Jones a Mair Spate. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 20fed am 7:00 o'r gloch yn Ysgol y Dderi a disgwylir Tim Jones i ymweld â'r gangen.

Hamdden

Y gŵr gwadd ym mis Hydref oedd Alan Leach ac fe gawsom sgwrs ddiddorol ganddo am hen hanes Plas y Dderi o 1745 hyd at bumdegau'r ganrif ddiwethaf. Rhoddwyd pleidlais wresog o ddiolch iddo am fanylion yr hanesion gan Peter Cornelius. Enillwyd y raffl gan Maisie Morgan, Sally Davies, Ethel McLaughlin, Sue Wellings, Peter Cornelius, Helen Frensh, Gwen

Lewis, Mair Spate, Rita Jones a Maureen Morgans. Gwen Lewis a Mair Spate fu'n gyfrifol am y lluniaeth ysgafn. Bydd y cyfarfod nesaf yn yr ysgol am 2:00 o'r gloch ar Dachwedd 8fed pan fydd Iona Kenny yn sôn am waith yr heddlu yn y gymuned. Croeso i aelodau newydd.

Adferiad iechyd

Dymunir adferiad iechyd llwyr a buan i Mrs Mair Morgan, Godre'r Coed sydd yn ysbyty Bronglais a hefyd i Tudor Jones, Penbank a fu am gyfnod byr yn yr ysbyty. Brysiwch wella eich dau.

Taith Dractor

Cynhaliwyd Taith Dractor lwyddiannus yn Llangybi ar Fedi 29ain pan ddaeth 32 tractor ynghyd i gymeryd rhan. Roedd hi'n braf gweld cymaint o bobl yno yn cefnogi ar ddiwrnod gwyntog a gwlyb Trosglwyddwyd yr elw o £1,812.55 i Carol Jones, cynrychiolydd Ambiwylans Awyr Cymru, gan Michelle Jones, trysorydd; Idwal Jones, Is Gadeirydd; Iwan Uridge, Cadeirydd ac Eryl Evans, Ysgrifennydd. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.

Talgarreg



Cylch Meithrin a Ti a Fi Talgarreg

Llongyfarchiadau i Gylch Meithrin Talgarreg am gipio'r 2il wobwr am 'Y Pwyllgor gorau' ac i Teleri Morris-Thomas am ddod yn 2il yn y categori 'Gwirfoddolwr' dros Gymru a gyflwynwyd yng ngwobrau'r Mudiad Meithrin yn Aberystwyth ganol mis Hydref. Hefyd ar y noson derbyniodd y Cylch safon arian yn Safonau Serennog y Mudiad. Diolch i'r staff Carol Rees a Wendy Rees ac i Cerys Lloyd y cadeirydd am eu gwaith arbennig. Dymuniadau gorau i Mair Jenkins (cyn arweinydd) ar ei swydd newydd gyda Dechrau'n deg. Cynhelir Noson Caws a Gwin y Cylch Meithrin a Ti a Fi yn Nhafarn Glanrafon, Talgarreg ar Nos Fercher, Rhagfyr y 4ydd am 7:30yh. Bydd tocynnau ar werth gan rieni'r Cylch Meithrin a Ti a Fi neu yn y dafarn. Croeso i bawb i ddod i gefnogi.

Llanbedr Pont Steffan



Arwel Huw Griffiths, disgybl o Ysgol Bro Pedr yn derbyn tystysgrif Arweinydd Ieuenctid gan Kistah Ramaya, Cyn lywydd a Rheolwr Ardal Clwb Rotary Llambed a Carol Ramaya, arweinydd Ieuenctid y clwb Rotary.

Pen-blwyddi arbennig

Yn ystod canol mis Hydref dathlodd Angharad Morgan Isaac, Bysiau G&M a Siwan Richards, 9 Cwrt Dulas ben-blwyddi arbennig yn 30 oed o fewn rhai dyddiau i'w gilydd. Gobeithio eich bod eich dwy wedi mwynhau'r dathlu!

Diolch

Dymuna Mrs Enfys Jones, 2 Peterwell Terrace ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer Jennifer mor sydyn. Gwerthfawrogrir hyn yn fawr iawn

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Newyddion Noddfa

Er bod sawl teulu yn absennol oherwydd amgylchiadau amrywiol, daeth nifer dda ynghyd i Noddfa ar Sul 13 Hydref i Oedfa Ddiolchgarwch yng ngofal yr Ysgol Sul. Yn ôl yr arfer lluniwyd yr Oedfa gan Janet ac mewn pennill a chân diolchwyd i Dduw am ei holl fendithion gan gofio hefyd am y miloedd sy'n dioddef ar hyd a lled y byd. Fe'n croesawyd gan Gwenllian a hi gyflwynodd y weddi agoriadol hefyd a'r emyn cyntaf. Cyhoeddwyd yr emynau eraill gan Trystan Bryn a Trystan Wyn ynghyd â'r plant ieuengaf sef Ifan, Hari, Llew, Lynwen, Esther, Erin a Nansi. Darllenwyd y canfed salm gan Rob a'r llefarwyr oedd Siân R.J. Llinos, Sian J a Nia Wyn. Mwynhawyd unawdau swynol gan Elan a Trystan Bryn ynghyd â sgwrs ddiddorol yn llawn hiwmor gan Elan, Tudur a Trystan Bryn ond hefyd â neges bwysig i bawb. Cafwyd gwledd yn gwrando ar grwpiau canu amrywiol a'r plant lleiaf fel arfer yn rhoi pleser mawr i bawb gyda'u brwdfrydedd heintus wrth ddiolch i Dduw am ei roddion. I gloi ymunodd y plant i ganu 'O mor dda yw ein Duw' a

phob un ohonynt wrth eu bodd yn chwarae offerynnau taro amrywiol. Braf oedd gweld Nansi, aelod newydd yn yr Ysgol Sul yn cymryd rhan. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Delyth a bu Llinos yn cyfeilio i'r plant.

Diolchodd Alun i Janet am ei gwaith arbennig yn paratoi'r plant ac am ei gwasanaeth diflino i Noddfa ar hyd y blynyddoedd. Talodd werthfawrogiad hefyd i'r rhieni am eu cymorth, i'r rhai oedd wedi cymryd rhan a gwneud eu gwaith mor raenus, i Roy a Derek am baratoi'r llwyfan ac i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau hael iawn tuag at y Banc Bwyd. Derbyniwyd neges oddi wrth ein Gweinidog y Parch Densil Morgan yn ymddiheuro am ei absenoldeb gan ei fod yn cymryd rhan mewn oedfa arbennig i dathlu deugain mlynedd o Weinidogaeth y Parch Eirian Lewis. Tystiai pawb yn bresennol eu bod wedi derbyn bendith yn cyd-addoli gyda'r plant, y bobl ifanc a'r rhieni mewn oedfa hyfryd yn diolch i Dduw am ei haelioni mawr tuag atom.

Cymdeithas Ddiwylliadol Eglwysi Shiloh a Soar

Mae'n arferiad ers blynyddoedd bellach i gychwyn tymor y Gymdeithas gyda Swper y Cynhaeaf ac eleni eto bu yn llwyddiant mawr er gwaethaf y tywydd garw. Roedd gwragedd y ddwy Eglwys wedi paratoi pryd rhagorol ar ein cyfer a phawb wedi eu digoni. Llywydd y Gymdeithas am eleni eto yw Huw Jenkins a diolchwyd iddo am ei barodrwydd i ymgymryd â'r gwaith. Ein gwestai oedd John a Menna Jones o Ffair Rhos. Mae John yn gyn Brifathro ysgol gynradd Tregaron ac mae Menna hefyd yn gweithio ym myd addysg. Olrhain hanes ardal ddiwylliedig Ffair Rhos oedd testun John a soniodd am yr ardal o dan dri phennawd - MMB sef Mwyngloddio, Mynachod a Beirdd a sut oedd y tri wedi cyfoethogi a lliwio bywyd yr ardal. Dyma

gartref dau Archdderwydd Cymru heb sôn am nifer o weinidogion a beirdd gwlad. Roedd y cyfarfodydd cystadleuol yn boblogaidd iawn yn y dyddiau a fu ac roedd cymaint â 150 yn ymgeisio ar y Limrig !! Soniodd Huw hefyd am rai o gymeriadau lliwgar yr ardal gyda'i gwreiddioldeb a'u hiwmor iach. Twynog Davies gafodd y fraint i ddiolch i John am noson hyfryd ac am ein hatgoffa sut oedd bywyd gwledig yn ein pentrefi ni yn y gorffennol. Tristwch yw cofnodi fod yna gymaint o newid wedi cymryd lle. Y Parchedig Dafydd Jones (Dafydd Aeron) fydd yn annerch y Gymdeithas yn y cyfarfod nesaf ar brynhawn ddydd Iau Tachwedd 14. Mae yna groeso i aelodau o Eglwysi eraill i ymuno â ni.

Merched y Wawr

Yn ystod mis Hydref cynhaliwyd noswaith yng Nghlwb Bowlio Llanbed. Cafwyd noson ddiddorol a hwylus iawn yng nghwmni Anwen Butten yn olrhain ei hanes a'i phrofiadau yn y byd bowlio. Gyrfa lwyddiannus iawn yn chwarae yn lleol a dros y byd. Mae wedi cynrychioli Cymru am dros 30 mlynedd ac yn dal ati ac yn gapten ar Gymru. Dangosodd yr holl fedalau aur, arian ac efydd a enillodd yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel ac yn Hemisffer y De. Braint oedd gwrando arni. Yn dilyn, cafodd llawer o'r aelodau droi ei llaw at y gamp. Rhai yn well na'i gilydd ond cafodd pawb hwyl. Diolch i Anita a Carolyn am ddangos y ffordd i ni.

Adran yr Urdd Llambed

Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni Mr Eryl Jones wrth iddo ddysgu'r aelodau sut i gwblhau rhaglen godio ar y cyfrifiaduron. Diolch yn fawr iddo am roi o'i amser. Cafwyd noson o gelf Calan Gaeaf lle bu'r aelodau yn creu gwrachod allan o bapur lliw. Mae'r aelodau ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth 'Carnifalwn' sef Noson llawn hwyl a sbri yng nghwmni Adrannau Ceredigion. Ceir cyfle i ganu, dawnsio, actio, tynnu lluniau a chyfansoddi a hynny drwy gael llawer o hwyl a sbri.

Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd ar 24 Medi a braf oedd gweld y criw ffyddlon arferol yn bresennol. Etholwyd y swyddogion canlynol:- Cadeirydd - Logan, Is - Gadeirydd - Ifan ac Ysgrifennydd - Martha. Cytunodd Janet a Geinor Medi i barhau fel arweinyddion a braf oedd croesawu Carys Jones i ymuno â'r tîm. Mae Carys sy'n gyn aelod o'r Aelwyd a'r Adran yn athrawes yn Ysgol Bro Pedr. Paratowyd rhaglen ar gyfer y tymor ac i ddiweddu'r noson

mwynhawyd cymryd rhan mewn cystadlaethau ysgafn yng ngofal Geinor Medi, Janet a Carys.

Ar 8 Hydref pleser oedd croesawu Lleucu Ifans atom. Mae Lleucu wedi sefydlu busnes yn dwyn y teitl Actifiti sydd yn cynnig gweithgareddau amrywiol i ysgolion a chlybiau. Dymunodd Janet yn dda iddi yn ei menter newydd. Cafwyd noson fywiog iawn yn ei chwmni yn cymryd rhan mewn gemau amrywiol a phawb yn ymuno yn yr hwyl. Diolchwyd i Lleucu am noson ddifyr iawn gan Ifan ac i Carys a Janet am gadw trefn.

Ar 22 Hydref treuliodd noson yng nghwmni Rhydian sy'n Swyddog Datblygu Cynorthwyol gyda'r Urdd yng Ngheredigion. I ddechrau bu'r bobl ifanc yn chwarae Cyrlio sy'n boblogaidd iawn yn Aelwyd Llambed. Roedd y timau yn gystadleuol a brwdfrydig iawn fel pe byddent yn cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd!! I gloi'r noson cymerwyd rhan mewn gemau amrywiol gydag ambell un yn gofyn am dawelwch!! Diolchwyd i Rhydian gan Martha am orig ddiddorol a hwyliog. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 12 Tachwedd sef hwyl Calangaeaf gyda Geinor Medi.



Llwyddiant Pêl-droed i dîm Dan 8 Llanbed

Llongyfarchiadau mawr i dîm Dan 8 Llanbed ar ennill twrnamaint cyntaf y tymor newydd. Daeth eu llwyddiant mewn twrnamaint er cof am Gary Pugh, Llanilar yn Aberystwyth yn ddiweddar.

Capel Brondeifi

Ar Orffennaf 14eg, Ioan Wyn Evans fu'n cymryd y gwasanaeth boreol, a'r Parch Goronwy Evans yn gweinyddu Cymundeb ar y Sul canlynol. Wedi seibiant yn ystod mis Awst oherwydd y cyfnod gwyliau, ail-gydiwyd yn yr awenau ddechrau Medi. Mrs Melda Grantham gymerodd y gwasanaeth ar y 1af o Fedi, cyn i'r gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis, ddychwelyd i'r pulpud ar y 15fed o Fedi, gydag oedfa yn y Festri. Yna ar yr 22ain o Fedi cafwyd gwasanaeth gan y

Llanbedr Pont Steffan



Aneurin Jones yn cael ei enwebu ar gyfer gwobrau 'Heart Hero'

gweinidog yn y Capel.

Ar y 19eg o Fehefin, trefnwyd taith ar gyfer aelodau'r Capel a ffrindiau i ymweld â Chaerfaddon. Cafwyd diwrnod diddorol a hwylus tu hwnt, a phwrpas yr ymweliad oedd cael blas ar gasgliad ffasiwn ddiwedd blwyddyn Heini Thomas, wrth iddi raddio yng Nghaerfaddon. Llongyfarchiadau mawr i Heini ar ei llwyddiant a dymuniadau gorau iddi yn ei gyrfa.

Llongyfarchiadau i Mr Aneurin Jones, Hathren, sy' wedi bod yn ddiagon ym Mrondeifi ers hanner canrif, ar gael ei enwebu ar gyfer Gwobrau 'Heart Hero' Sefydliad Prydeinig y Galon yn Llundain yn ddiweddar. Cydnabyddiaeth arbennig a haeddiannol am ei ddegawdau o wasanaeth i'r elusen.

Ar yr 28ain o Orffennaf roedd y Parch Goronwy Evans yn gwasanaethu yng nghapel unigryw Soar y Mynydd. Aeth torf dda o Frondeifi yno i'w gefnogi. Ar y ffordd adre' fe wnaeth nifer o'r gynulleidfa fanteisio ar y cyfle i fwynhau te prynhawn gyda'i gilydd yn Riverbank, Tregaron. Bydd y Parch Goronwy Evans yn dychwelyd i bulpud Soar Y Mynydd ar y 13eg o Hydref ar gyfer y Cwrdd Diolchgarwch am 2 o'r gloch - hwn fydd gweithgaredd olaf y tymor yn yr hen gapel.

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Brondeifi am 2 o'r gloch ar yr 20fed o Hydref gyda'r Parch Aled Gwyn yn gwasanaethu.

Mae llwybrau newydd wedi eu gosod yn y fynwent ym Mrondeifi. Maen nhw'n edrych yn arbennig, ac mae'r ymateb wedi bod yn wych, gyda sawl aelod, a rheiny sydd â chysylltiadau gyda Brondeifi, yn cyfrannu yn hael tuag at y gost. Diolch yn fawr iddyn nhw am eu caredigrwydd.

Cylch Cinio Llambod

Daeth aelodau Cylch Cinio Llanbedr Pont Steffan ynghyd ar y 3ydd o Hydref yng Nghlwb Rygbi'r dref dan lywyddiaeth Mr Haydn Richards am y cyntaf o bum cyfarfod a gynhelir rhwng Hydref a Mawrth. Dros yr Haf fe lwyddodd yr Ysgrifennydd Siaradwyr, Mr



Lyndon Lloyd, OBE a Haydn Richards

Twynog Davies, i drefnu rhaglen amrywiol a diddorol ac yn sicrhoddwyd dechreuad da i'r tymor gan ŵr gwadd y noson, Lyndon Lloyd OBE, Cynghorydd Sir dros gymuned Beulah ers pymtheg mlynedd a Llywydd Cyngor Henoed Ceredigion.

Fel un fu'n dilyn gyrfa mewn llywodraeth leol yn y maes gwasanaethau cymdeithasol, yr oedd ei destun, "Syr David Owen Evans : Awdur Cynllun Pensiwn Gwladol" yn amlwg yn agos i'w galon ac adlewyrchwyd hynny yn y cyfoeth o wybodaeth a rannodd ag aelodau'r Cylch. Yn enedigol o fferm Llanborth, Penbryn, clywsom fel y cafodd D. O Evans (1876-1945) ei addysg gynnwys yn ysgol Penmorfa a mynd i Goleg Llanyddfryfri ac yna'r Imperial College, Llundain cyn cymhwyso fel bargyfreithiwr yn Gray's Inn a mynd i weithio yn y Gwasanaeth Sifil fel un o'r "ceffylau ôl" - yng ngeiriau Mr Lloyd - sy'n llunio ein deddfau. Y ddeddf y bu ef yn ei llunio ar ran Canghellor y Trysorlys, David Lloyd George, oedd Deddf Pensiynau 1908. Hon a Deddf Yswiriant Gwladol 1911 oedd yn gyfrifol am osod seiliau'r Wladwriaeth Les sydd gennym heddiw. Yn 1911 cyhoeddwyd ei lyfr Law of Old Age Pensions: Finance Act 1909-10 a disgrifiodd Mr Lloyd sut yr oedd ei ymwybyddiaeth o ddiolch oes a'i gefndir personol yng Ngheredigion wedi cynnal ei frwdfrydedd dros welliant cymdeithasol a'i yrfa wleidyddol fel aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Geredigion o 1932 hyd at ei farwolaeth. Soniodd hefyd am ei waith ym myd diwydiant (yn gyfarwyddwr cwmni Mond Nickel er enghraifft) a'i weithgaredd gyda sefydliadau diwylliannol Cymru - yn gerddor ac eisteddfodwr, fe luniwyd Cyfansoddiad Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol dan ei lywyddiaeth.

Diolchwyd i Mr Lloyd gan ei gyd-gynghorydd sir, Hag Harris, am gyflwyniad manwl a diddorol. Swyddogion eraill y Cylch am dymor 2019/20 yw Mr Tim Jones (Ysgrifennydd Cyffredinol,) Mr John Davies, Tynloff, (Is-lywydd,) Mr Tom James (Trysorydd) a Mr Richard Marks (Swyddog y Wasg.) Cynhelir cyfarfod nesaf y Cylch ar y 7fed o Dachwedd am 7.30 y.h. yn yr un lleoliad pan groesawir Ms Eleri Twynog i sôn am "ddod â hanes Cymru yn fyw i'n plant."



Grŵp Cwlwm

Mr Tom James (Trysorydd) a Mr Richard Marks (Swyddog y Wasg.) Cynhelir cyfarfod nesaf y Cylch ar y 7fed o Dachwedd am 7.30 y.h. yn yr un lleoliad pan groesawir Ms Eleri Twynog i sôn am "ddod â hanes Cymru yn fyw i'n plant."

Cymdeithas Hanes

Helen Palmer, Archifydd Ceredigion oedd y siaradwr yng nghyfarfod mis Medi, a chafodd groeso cynnes gan y Cadeirydd. Cyflwynodd gyfres o luniau i ni yn dangos safle'r Archifdy a'r gweithle, a siarodd am yr adnoddau sydd mewn cadw yn yr Archifdy - dogfennau'n berthnasol i hen stadau, cofnodion 'wyrwys', adroddiadau'n berthnasol i'r Rhyfel Mawr, cofnodion llysoedd barn, a llawer mwy. Roedd yn ofynnol i bawb briodi yn yr Eglwys cyn 1837, er y gwelwyd un dystysgrif o briodas a gymerodd le y tu allan i'r Eglwys yn ystod yr adeg hynny. Gwelwyd llythyr a ysgrifennwyd gan ferch 10 oed yn Llambod yn 1871. Roedd ei thad yn rheolwr banc, a hi yn amlwg o dan ofal athrawes breifat.

Mae gan Helen frwdfrydedd heintus, sy'n annog pawb i fynd am dro i'r Archifdy i chwilota am hanes ein hardaloedd o fewn Ceredigion. Diolchwyd eto iddi gan Selwyn Walters, yn enwedig gan iddi ddod ar fyr rybudd oherwydd salwch siaradwr arall.

Bydd cyfarfod Mis Tachwedd ar yr 19eg o'r mis, 7.30yh yn Hen Neuadd y Coleg. Y siaradwr fydd Richard O'Brien sy'n ddisgynnydd o deulu'r Rees/Rhys, Glandulas, Llambod. Fe fydd yn rhoi hanes y teulu sy'n huanu o Lanwenog, Llanybydder, Parc-y-rhos a Llanarth. Fe fydd yn dod yr holl ffordd o Lundain i roi'r noson hon i ni. Croeso cynnes i bawb a dewch i'w gefnogi.

Mae yna gais wedi dod oddi wrth Penny David a fydd yn siarad yng nghyfarfod Mis Ionawr. Fe fydd hi yn sôn am y teuluoedd hynny a oedd yn gweithio ar Stad Glynhebog (Falcondale). Os oes gwybodaeth gan rywun am rai o'r teuluoedd yma neu luniau, llythron ayyb, a wnewch chi gysylltu â Penny ar 01570 422041, neu roi'r wybodaeth

mewn amlen a'i phostio drwy flwch post yr Amgueddfa wrth fynedfa'r Coleg (mewn lle y gellir ei chasglu). Gwnewch yn siŵr bod eich enw yn yr amlen er mwyn i ni ddychwelyd eich lluniau'n ddiogel.

Harmonïau'r Hydref

Ar nos Sadwrn y 12fed o Hydref daeth bron 250 o bobl ynghyd i neuadd Coleg Llambod i fwynhau gwledd o adloniant yng nghyngerdd 'Harmonïau'r Hydref'. Diolch i'r Coleg am eu cyfraniad gwerthfawr i'r noson. Roedd y gynulleidfa yn cynnwys ein gwahoddedigion, Ben Lake A.S, Eifion Evans, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion a'i bartner Carol Davies a hefyd Maer y Dref Rob Phillips a'i briod Delyth Morgans Phillips. Pleser oedd cael y tri yn bresennol yn y noson arbennig hon. Roedd hi'n noson wefreiddiol ac yn gyfle i mi glywed merched 'Cwlwm' yn canu yn fyw am y tro cyntaf erioed. Profiad bythgofiadwy yn wir. Agorwyd y noson gan yr arweinydd gwadd sef Ifan Gruffydd a oedd 'on top form'. Roedd y jôcs yn llifo ac roedd clywed y dorf yn chwethin yn brawf o'i hiwmor unigryw. Ga i gymryd y cyfle hwn hefyd i ddiolch i Carlo'r Ci am wneud ymddangosiad ar y noson a'i longyfarch!!! sori longyfarch am ddod yn aelod o orsedd y beirdd o dan ffugenw 'Carlo o'r Cenedl'. Roedd ymateb y dorf yn dyst i lwyddiant ysgubol y comediwr o Dregaron.

Yna cafwyd y fraint o wrando ar y canwr enwog Delwyn Sion. Mae ei ganeuon yn adleisio diffuantrwydd ei brofiadau personol ac roedd gwrandawriad astud y dorf yn hudol wrth wrando ar ei lais unigryw. Dysgais ffaith ddiddorol amdano a synnais fod Delwyn Sion a Max Boyce yn gefnderwyr, y ddau berfformiwr o gymoedd y de a'r ddawn o rannu profiadau personol a phlesio'r gynulleidfa ar yr un pryd. Gorffennodd Delwyn Sion y noson gyda'i gân Nadoligaidd 'Un Seren' un o glasuron cerddoriaeth Gymraeg. Hefyd, cafwyd 'Guest Appearance' gan ddwy o aelodau'r grŵp enwog Abba, Agnetha ac Anni-fred sydd bellach yn byw yng Nghwman!!

Llanbedr Pont Steffan



Tîm cyntaf 15 Rygbi Llanbedr yn eu cit ymgynhesu nodedig newydd. Noddwyd y cit yma gan Outback Outfitters. Hefyd yn y llun mae'r hyfforddwyr a'r noddwr.



Tîm cyntaf 15 Rygbi Llanbedr yn eu cit nodedig newydd. Mae'r hyfforddwyr hefyd yn y llun. Cafodd y cit ei noddi gan – Dunbia, Cyfri, D C Evans, Cegin Gwenog, W D Lewis, E & M Motor Factors, Morgan & Davies, LAS, Cambrian Pet Foods a Teify Forge.

Cafwyd perfformiad anhygoel gan y ddwy ar y piano. Proffesiynol tu hwnt! Heb os, rydym ni mor lwcus i gael dwy mor dalentog yn byw yn yr ardal, sydd wastad mor barod i helpu ieuencid ardal Llanbedr mewn Eisteddfodau di-ri. Rhag ofn nad oeddech wedi adnabod y ddwy o dan y 'flicks' i gyd - diolch Lois Williams a Rhiannon Lewis!

Ac ymlaen i uchafbwynt y noson - aduniad 'Spice Girls' Llanbedr - Cwlwm. Talentau o fri a phob un o'r pump yn amlwg yn ffrindiau oes. Roedd edrych 'mla'n mawr i'r noson, y tocynnau wedi'u gwerthu allan ers misoedd a phawb dros Gymru wedi clywed am aduniad y pumawd enwog o Llanbedr. Yng nghwmni Shan Cothi, Delyth Medi, Eleri Twynog, Elin Jones a Hedydd Thomas, ni chafodd neb eu siomi gan griw 'Cwlwm'. Y merched i gyd a'u gwreiddiau yn sownd yng Nghyffiniau Llanbedr. Y pump wedi cwrdd yn ysgol Llanbedr ac wedi eu clymu gydag un peth yn gyffredin - y cariad at ganu. Er bod wythnos wedi mynd mae'r harmonïau soniarus a greuwyd ganddynt yn aros yn y cof. Fel cynulleidfaoeth aethon ni ar daith gyda'r merched yn ôl i ddechrau Cwlwm hyd at heddiw. Er bod pob un o'r aelodau yn llwyddiannus yn eu meysydd eu hun roedd yna rywbeth hudol wrth i'r grŵp ddod at ei gilydd i berfformio. Roedd y neuadd yn llawn nostalgia a chaneuon Cwlwm nas canwyd ers 20 mlynedd yn llenwi'r neuadd. Mae gen i fy ffefrynnau personol yn cynnwys 'Walt da Matilda', yr emyn enwog 'Mor Fawr Wyt Ti' a'r clasur 'Heddiw, Fory'. Fel y soniais mae 20 mlynedd wedi pasio ers i'r pump ganu gyda'i gilydd mewn cyngerdd fel hyn ac roedd hi'n anrhydedd i ni fel trigolion Llanbedr a thu hwnt i brofi 'Y Cwlwm sy'n dynnach nag a fu erioed'. Cafodd y merched ymateb anhygoel gan y gynulleidfaoeth. Roedd y bloeddio wrth i'r gyngerdd ddod i ben yn dyst i llwyddiant anhygoel y noson. A gyda chymorth yr artistiaid gwadd a'r gynulleidfaoeth frwd codwyd £2,000 anrhydeddus i goffrau Pwyllgor Apêl Eisteddfod Ceredigion Tre Llanbedr 2020. Hoffwn gymryd y cyfle hwn hefyd i ddiolch i 'Cascade'

ac i 'Cadi a Grace' am gyfrannu'r blodau lliwgar ar y byrddau, i Compass Supplies, Llanbedr am yr amlenni a hefyd diolch i'r holl gwmnïau am eu cyfraniadau hael tuag at y raffl - Gwilym C Price, LAS, Siop J.H Roberts, Sgubor Harddwch, Myfanwy Bryce, Salon Gem ac 'Ospreys Rygbi'. Yn olaf, diolch yn fawr i'r 'A-TEAM' (tîm Ann Bowen-Morgan, Cadeirydd y Pwyllgor Apêl) aka Aelodau'r Pwyllgor Apêl am drefnu'r noson llwyddiannus hon. Ymlaen i 2020!!!



Mae Bryan a Mavis Beynon, Castle Green, Llanbedr yn ymfalchïo yn y ffaith bod eu bwyty wedi cael ei enwi fel 'one of the best places to eat in Wales' yn un o'r papurau cenedlaethol yn ddiweddar. Mae Bryan a Mavis wedi gweini prydau bwyd safonol ers dros ddeng mlynedd ar hugain.



Aelodau Clwb Rotary Llanbedr gyda Gwilym Jones, profost Prifysgol Drindod Dewi Sant a'r myfyrwyr yn troi'r golau ymlaen ar nos Fercher. Disgleiriodd y golau yn borffor ar yr adeiladau er mwyn nodi rhaglen Difodiad Polio'r Rotary.



Ieuan Jones (Ffin) yn ymfalchïo wrth arddangos y cwpan a gyflwynwyd iddo gan URC Adran G am ei wasanaeth i Glwb Rygbi Llanbedr am dros 55 mlynedd. Bu'n Gadeirydd, Llywydd a Hyfforddwr i nifer o dimoedd, ond mae'n fwy adnabyddus am ei waith trylwyr fel gofialwr y cae chwarae ynghyd â'i ymroddiad i'r clwb ymhob agwedd. Mae'r anrhydedd yma'n hollol haeddiannol.



Cinio Dydd Sul
Clwb Rygbi Llanbedr
12 - 2yp Cynghorir archebu o flaen llaw

Y cynnyrch i gyd yn ffres
Pwddinau cartref
Prydau heb glwten a phrydau
llysieuol a fegan ar gael, dim ond i
chi ein hysbysu wrth archebu.
Ffoniwch 01570422785

Ffair Nadolig Pontsian

yn Neuadd Pontsian
Dydd Sul, 17eg o Dachwedd
rhwng 10:30yb a 3yh.

Dros 30 o stondinau gyda chrefftau
amrywiol a chynnyrch lleol.
Gwobrau raffl gwych wedi'u rhoi
gan ein stondinwyr. Elw'r dydd yn
mynd tuag at Elusennau Lleol.

Mynediad-£3 oedolion a £1 blant
uwchradd, pris yn cynnwys diod
dwyw a mins pei.
Dewch yn llw.

Cwrtnewydd

Llwyddiant Buches godro 'Walliswood'

Mae llwyddiant wedi dod i deulu Williams Clyncoch yn ystod y misoedd diwethaf wrth iddynt ennill gwobr 'Masterbreed Holstein UK' gan ennill rownd Cymru. Yn ystod mis Medi bu prynhawn agored yno gyda nifer fawr yn troi allan i weld y fuches 'Walliswood' sydd ar Fferm Clyncoch. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu cyfan oherwydd nid dyma'r tro cyntaf iddynt ennill y wobr arbennig hon. Ymfalchïwn i gyd yn eich llwyddiant ysgubol.

Clwb Clonc

Tachwedd 2019

£25 rhif 458 :
Mrs Hedydd Thomas, Llanbedr.
£20 rhif 183 :
Mrs Anne Evenden, Llanbedr.
£15 rhif 432 :
Cerys a Steffan Roberts,
Cwmann.
£10 rhif 211 :
Helen Howells, Llandysul.
£10 rhif 283 :
Mrs Eirian Jones, Cwmann.
£10 rhif 205 :
Tony Hatcher, Cwmann.
£5 rhif 337 :
Ann Jones, Pencader.



Enw: Dan Evans Jones

Oed: 26

Pentref: Geni yn Llanwenog, wedi byw yn Llanybydder ers blwyddyn.

Gwaith: Dyn post

Partner: Catrin Evans

Teulu: Merch fach - Lili Grug, 10 mis oed. Mam – Janet Jones. Dad – Gareth Jones. Brawd a'i wraig – Rhys ac Elin Jones. Dwy chwaer – Rhian a Delyth Jones. Dau nai – Charlie a Jac.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Un diwrnod yn yr ysgol gynradd, roedd y gogyddes yna yn treial dysgu Cymraeg, a dyna hi yn dweud wrth y plant 'Eat your moron'.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Wacky Races, na ble fi wedi cal sgiliau gyrru fi wrtho.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Un diwrnod yn y coleg, anghofies i bod bola dost da fi pan wnes i dreial taro rhech. Wnaeth y pants ddim dod adre gyda fi y diwrnod ni!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Peidio taro rhech pan mae bola dost gyda chi.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
Cer i roi cwpwl o bets arno!

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Byth wedi prynu CD.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Millionaire, dal yn gweithio arno!

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Cal row gan athrawes yr ysgol gynradd am photocopio fy nhin porcyn.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Dod adre o'r gwaith i swper ar gyfer y ddau ohonon ni - peint o gwrw a phwdin.

Beth oedd y frawddeg fachu orau a ddefnyddiaist erioed, neu'r frawddeg fachu a glywaist?
'Are you from Japan? Because I'm trying to get into your janties.'

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Adre gyda Lili a Catrin yn ymlacio, gyda peint yn fy llaw.



Beth yw dy lysenw?

Mae sawl un da fi erbyn hyn, Dan Talardd, Dan Knotweed, Dan Jap a Dan Post.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?
Dan Biggar?

Pwy yw dy arwyr?
John Jones, neu John Talardd/John clogs fel mae rhai yn ei nabod. Strab o foi.

Taset ti'n fised, pa fath fyddet ti a pham?
Jammy Dodgers, achos fi'n llawn jam!

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?
Sloth, achos fi mor 'laid back'.

Beth yw dy arbenigedd?
Siarad wast!

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Stopio i gal paned a chat gyda pobol.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
Cario post yn y glaw. Erbyn y diwedd mae fel rhoi paper mache trwy'r twll.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Ein bod yn gallu cerdded i'r dafarn a'r takeaway.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?

Bod tafarn yn agos- dyw'r waled ddim yn hapus!

Pa mor wyrdd wyt ti?
Wel, fi heb droi mewn i Incredible Hulk eto!

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg... obviously.

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?
Bod tadau yn cal mwy o 'paternity leave' ar ôl cael plentyn.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Person sy'n siarad am ei hunan trwy'r amser.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Os bydden i'n cal ffordd fy hunan - ar hen gar arall. Ond, pe bai Catrin yn cal ffordd ei hunan, bydde rhaid gwario ar ail wneud y tŷ.

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Pan maeddodd Cymru Ffrainc yn y quater finals Rugby.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Royal Welsh, does ddim angen gweud mwy.

Beth yw dy hoff arogl?
Bacwn ar ôl noson ar y pop.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Pan giciais degan Lili a torri bys fy nhroed! Odd e'n boenus, a fana roedd Catrin yn chwerthin arna i.

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?
Wedi taro rhech a dweud taw ce-wyn Lili oedd yn drewi.

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?
Codi lan yn tŷ fy ffrind ar ôl noson allan, a wedyn darganfod bod e wedi cysgu draw yn tŷ fi!

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Ymdeol yn ifanc.

Pryd oeddet ti'n borecyn diwethaf o flaen person arall?
Yn y bath gyda Lili.

Unrhyw ofergoelion?
Dim pigo mwyar ar ôl Mis Medi gan bod y diafol yn pisho arnynt.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Cadw wyneb syth tra'n siarad â hen ddyn yn eistedd ar 'commode' wrth roi post iddo.

Ac yn bersonol?
Pan gafodd Lili ei geni - y babi gore!

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?
Byth yn dyfaru dim byd. Dyna beth sydd wedi cal fi i ble rydw i heddi. Hyd yn oed y pethe twp rwyf wedi gwneud i gyd.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?
Byth 'stresso' am ddim byd, wastad cadw'n hapus, mae bywyd yn rhy fyr. 'Na beth sy'n cadw fi i edrych mor ifanc.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Gweithio fel dyn post.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Paid cachu ar stepen drws dy hun.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Pan gafodd Lili ei geni.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Cyfeillgar. Bywiog. Direidus.

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Ddim yn gwybod, ond gobeithio bod e'n dda.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Enw: Sion Evans
Pentref: Llanllwni



Dosbarth 5/6 Grannell Ysgol Bro Pedr yn ennill Cystadleuaeth creu ffilm am Lyfrgelloedd Ceredigion.



Apêl Romania



Darcey a Keeley o Ysgol Bro Pedr yng nghartref Hafan deg fel rhan o gywaith Arts 4 wellbeing yn cymdeithasu ac yn cwblhau gwaith Celf gyda'r preswylwyr.



Llwyddwyd i gasglu dros 80 o focsys Nadolig tuag at Apêl Romania yn Ysgol Bro Pedr – diolch i bawb a gyfrannodd



Côr Ysgol Bro Pedr yn perfformio yng ngwasanaeth Ennyd Gobaith yn Eglwys Sant Pedr yn ddiweddar.



Prif Swyddogion Ysgol Bro Pedr a'u dirprwyon am y flwyddyn 2019 - 2020. Rhes flaen - Prif swyddogion - Elin Davies, Lisa Evans a Gwyn Davies. Rhes ôl - eu Dirprwyon - Heledd Jenkins, Idris Lloyd, Theo Teasdale ac Eleri James.

Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Bu criw o ddisgyblion blwyddyn 4 yn mwynhau ar gwrw Preswyl yn Llain a chael cyfle i gwblhau nifer o weithgareddau anturus. Diolch yn fawr i Mr John a fu'n trefnu ac i Mr Jones, Miss Davies, Mrs Roberts, Miss Jones a Mr Thomas a fu'n goruchwyllo. Daeth PC Hanna i wneud cyflwyniadau diddorol am Ffrind neu Elyn ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gydag amryw ddosbarthiadau a diolch iddi am roi o'i hamser i ddod atom. Cafodd y disgyblion gyfle i wyllo sioe hwyliog iawn a gyflwynwyd gan yr Asiantaeth Fwyd. Cafwyd cyfle i ddysgu am fwyta'n iach a hylendid a chael digon o hwyl a sbri ar yr un pryd.

Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 Grannell ar ennill cystadleuaeth creu ffilm Llyfrgelloedd Ceredigion a diolch o galon i Mr Jones a Mr Roderick am arwain. Cyflwynwyd y wobwr a thocyn llyfrau i gynrychiolwyr o'r dosbarth sef Louie a Charley mewn Seremoni arbennig yn Aberaeron gan Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion Cllr Elen ap Gwyn ac Emyr Lloyd o Lyfrgell Ceredigion. Cafodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 brynhawn o ddysgu sgiliau amrywiol newydd ar y cae aml bwrpas mewn Gŵyl Chwaraeon yn ddiweddar. Gan mai ein prif themâu'r tymor yma yw Cwpan Rygbi'r Byd cafwyd diwrnod i ddathlu Japan gydag amrywiaeth o weithgareddau

o bob math er mwyn dysgu am ddiwylliant ac arferion y wlad. Cysylltwyd drwy skype â Takeshi sy'n byw yn Tokyo ond a ddysgodd yr iaith Gymraeg ym mhrifysgol Llambed rai blynyddoedd yn ôl. Cafwyd sesiwn holi ac ateb buddiol a gwerthfawr dros ben. Roedd yn bleser gwrandao arno yn siarad yr iaith Gymraeg mor rhugl a chywir. Ymhlith rhai o'r gweithgareddau cawsom waith celf, dawns a cherddoriaeth i enwi ond ychydig. Diolch yn fawr iawn i'r athrawon a fu'n paratoi a chyflwyno'r holl weithgareddau cyffrous yma. Yn ogystal cawsom neges bersonol gan Ken Owens o Japan cyn iddo chwarae'r gêm gyntaf gyda Chymru yng nghwpan Rygbi'r byd.

Yn ystod y tymor bu Lleucu Aeron yn cynnal Clwb Chwaraeon ar ôl ysgol ac y mae'r plant wedi cael llawer o hwyl yn dysgu sgiliau newydd yn ei chwmni. Bydd y clwb yn parhau ar ôl ysgol ar nos Lun i ddisgyblion bl 3,4,5 a 6 tan Dolig. Roedd hi'n bleser gwrandao ar gôr yr ysgol yn perfformio yng ngwasanaeth Ennyd Gobaith yn Eglwys Sant Pedr – diolch i Miss Davies am gyfeilio a Mrs Jones am arwain a diolch i Miss Anita a Mr Jones am baratoi gwaith Celf gyda'r disgyblion ar gyfer y gwasanaeth. Diolch hefyd i Steven Holmes a'r tîm am drefnu gwasanaeth hyfryd arall eleni.

Mae gwersi Cymraeg am ddim a drefnir gan Brifysgol Aberystwyth

(CIT) wedi cychwyn i oedolion yn y campws cynradd ac mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno dysgu'r iaith i ymuno bob Nos Fawrth rhwng 3.30 a 5.00. Daeth Lleucu Meinir o Gadwyn Teifi i weithio gyda disgyblion blwyddyn 2 Dwynwen gan baratoi ffilm gyffrous ar stori Duw'n creu'r byd. Cafwyd llawer o hwyl yn chwilio adnoddau, tynnu lluniau a gwneud clipiau fideo. Diolch iddi am ddod atom ac edrychwn ymlaen at gael ei chwmni eto yn yr ysgol yn fuan.

Gwnaeth timau rygbi'r ysgol fwynhau cystadlu yng nghystadleuaeth Rygbi Sirol yr Urdd yn ddiweddar a diolch i Mr Thomas a Miss Shan am hyfforddi. Gwnaeth y ddau dim yn arbennig o dda a dim ond colli allan o'r rowndiau olaf o un cais- daliwch ati! Casglwyd wythdeg o focsys Nadolig tuag at Apêl Romania a diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd. Hoffwn ddiolch yn fawr hefyd i Mr Burgess sydd yn gorffen trefnu a chludo eleni wedi blynyddoedd o waith diflino.

Ar ddiwrnod Shwmae bu holl ddisgyblion y campws yn cwblhau nifer o weithgareddau i hybu Cymreictod a chafwyd cyfle i flasau Picau ar y Maen blasus. Diolch yn fawr i Gwenodoline am y Picau ar y Maen ac i Mareth am baratoi'r sticeri. Bu nifer o'n disgyblion yn plannu bylbiau yn barod ar gyfer

y Gwanwyn - "Edina Trust Bulb Project".

Bu Darcey Lambert a Keeley Barret yn Hafan Deg fel rhan o'r prosiect Arts for Wellbeing a mwynhau cymdeithasu gyda'r deiliaid wrth gwblhau gweithgareddau Celf.

Diolch i Mr Patterson am ei gyflwyniad a'i neges bwrpasol yng nghwrdd Diolchgarwch yr ysgol ac i gôr yr ysgol am eu perfformiad graenus. Daeth PCSO Sarah i roi cyflwyniad i'r disgyblion ar sut i gadw'n ddiogel adeg Calan Gaeaf ac ar Noson Tân Gwylt - diolch am ddod atom.

Gwnaeth disgyblion blynyddoedd 3 4 5 a 6 fwynhau gwyltio Sioe bypedau Dygwyl y Meirw yn Theatr Felin-fach yn ddiweddar- sioe oedd hon i ddathlu chwedlau Celtaidd Calan Gaeaf a chylch bywyd. Bu disgyblion blwyddyn 6 mewn noson o groeso yn Sector Hŷn Ysgol Bro Pedr a chael cyfle i dderbyn gwybodaeth helaeth a chael blas ar nifer o weithgareddau diddorol a symbylus. Hyfryd oedd cael croesawu nifer o rieni'r Uned dan 5 i gyflwyniad ar yr Wyddor Stumiau. Diolch i Mrs Jones a Miss Jones am y cyflwyniad bywiog ac eglur.



Timau Ysgol Bro Pedr yn mwynhau cystadlu yng nghystadleuaeth Rygbi Sirol yr Urdd yn ddiweddar.



Disgyblion blwyddyn 5 a 6 Grannell yn ennill cystadleuaeth creu ffilm Llyfrgelloedd Ceredigion



Y pwyllgor Cymreictod ar ddiwrnod Shwmae



Takeshi yn Tokyo yn siarad â disgyblion Ysgol Bro Pedr yn y Gymraeg dros Skype.



Diwrnod gweithgareddau yn seiliedig ar Siapan yn Ysgol Bro Pedr.



Dathlu Diwrnod Shwmae yn Ysgol Bro Pedr - gweithgareddau Cymreig a'r Pwyllgor Cymreictod yn dosbarthu pice ar y maen a sticeri ar draws y campws.



Hanner Marathon Caerdydd

Profwyd nerth atyniad Marathon Eryri i redwyr Clwb Sarn Helen eleni eto ar y 26ain o Hydref wrth i 17 o'i aelodau gychwyn y ras. Prin iawn yw'r rhedwyr sy'n gosod record bersonol am y pellter dros y cwrs heriol hwn. Y cyntaf o aelodau'r clwb i orffen y tro hwn oedd Ken Caulkett (3 awr 12 munud a 45 eiliad) gan ddod yn 60fed allan o'r 2300 a redodd. Wedi rhedeg yno'n flynyddol ac yn llwyddiannus dros y ddegawd ddiwethaf, y nesaf i orffen oedd Glyn Price (3.21.54) a daeth ef yn 7fed yn nosbarth y dynion dros 50. Yn ddigon clos ar ei ôl yr oedd George Eadon (3.26.56) - canlyniad sy'n cadarnhau ei ddatblygiad ef dros y flwyddyn ddiwethaf - a Nigel Davies (3.30.0) yn 25ain yn nosbarth y dynion dros 45. Yr aelod arall i orffen dan 4 awr oedd Carwyn Davies (Llanwrda) a orffennodd mewn 3.49.55, yntau'n un sydd wedi rhedeg marathon Llundain dan 3 awr fwy nag unwaith. Ychydig iawn o gystadleuwyr eleni fyddai wedi rhedeg y ras hon fwy o weithiau nag Eric Rees (4.02.34) - un o ychydig redwyr y Clwb hefyd sydd wedi rhedeg y cwrs yma dan 3 awr yn y gorffennol. Cafwyd ymdrechion da hefyd gan Carwyn Davies (Llanwenog), Steven Holmes a Mitchell Readwin. Ymhlith y menywod, clod arbennig i Delyth Crimes (4.13.26) ar ddod yn 10 fed yn nosbarth y menywod dros 50, record bersonol yn ei thrydydd farathon - y ddwy flaenorol dros yr un cwrs - a hefyd i Heather Hughes (4.11.44) yn ei marathon gyntaf yn dod yn 28ain yn nosbarth y menywod dros 40. Cafwyd canlyniadau da hefyd gan Siân Roberts Jones (4.20.29 ac yn 56fed yn ei dosbarth), Pamela Carter (4.47.51), Enfy Needham Jones (4.52.12), Jenny Caulkett (5.12.06), ac Emma Gray (6.18.50.) Bu rhaid i Nicola Davies roi'r gorau iddi ychydig cyn yr 20 milltir a rhaid cydnabod dewrder rhain yn eu parodrwydd i ymgymryd â ras fel hon er dod i'r byd rhedeg, mewn llawer achos, yn gymharol ddiweddar.

Cynhaliwyd dwy ras heol ddinesig sylweddol iawn yn ystod mis Hydref ac yr oedd cynrychiolwyr gan y clwb yn rhain hefyd. Ar y 6ed yr oedd 25 ohonynt ymhlith y miloedd lawer a redodd Hanner Marathon Caerdydd. Gyda dau o'r Affricanwyr yn rhedeg o dan awr, cafwyd ymdrech orau'r clwb gan Sion Price (79.20). Y canlyniadau eraill oedd: Irfon Thomas, 01:29:50; Tomos Morgans,



Ras y Ddau Begwn

01:37:34; Carwyn Thomas, 01:38:26; Carwyn Davies, 01:30:12; Eleri Rivers, 01:40:14; Eilir Evans, 01:42:14; Sian Roberts-Jones, 01:44:08; Alexander Price, 01:42:35; Matthew Walker, 01:47:19; Nia Venville, 01:50:44; Pamela Carter, 01:58:11; Liz Pugh, 02:02:28; Sian Bela Jenkins, 02:06:09; Rhys Burton, 02:06:09; Nicola Davies, 02:08:29; Rebecca Doswell, 02:13:32; Elisha Leigh Jones, 02:05:52; Jane Holmes, 02:23:25; Emma Gray, 02:31:29; Lisa Naden Hughes, 02:23:00; Lorraine Davies, 02:46:30; Jane Burtenshaw-Jones, 02:39:26; Graham Penn, 03:10:07 and Steven Holmes, 03:26:40

Yr oedd 3522 yn rhedeg ras 10 cilometr Abertawe ar y 22ain o Hydref eleni a gwnaeth Dawn Kenwright (48 munud 21 eiliad) yn ardderchog i ddod yn 7fed yn nosbarth y menywod dros 60 a chadarnhau ei lle yn nhîm y menywod dros 60 Cymru ar gyfer cystadleuaeth drawsgwlad Prydain ac Iwerddon yn Lerpwl ym mis Tachwedd. Yn ei chefnogi yr oedd Rebecca Doswell (59.460) a Lorraine Davies (62.08) - record bersonol i'r ddwy

Uchafbwyntiau Hydref yng Ngheredigion oedd Ras Y Ddau Begwn yn Aberystwyth ar y 13eg a Ras Dalis yn Nihewyd ar yr 20fed. Enillwyd dosbarth y menywod dan 35 yn Aberystwyth gan Dee Jolly gan gwblhau'r daith i fyny ac i lawr a daeth Glyn Price (50.55) yn 4ydd yn y ras gan ennill dosbarth y dynion dros 50. Enillwyd gwobrau hefyd gan Eirwyn Roberts (3ydd o'r dynion dan 35 mewn 52.01) a Tony Hall (3ydd o'r dynion dros 60 mewn 70.32.) Daeth buddugoliaeth i Steffan Thomas (43.05) yn Ras Dalis, ychydig o flaen George Eadon (44.08). Dee Jolly (44.40) enillodd ras y menywod ac Eleri Rivers (55.35) oedd enillydd dosbarth y menywod dros 45. Daeth Meic Davies (45.39) yn 1af yn nosbarth y dynion dros 50.

Un o berfformiadau amlwg eraill mis Hydref oedd 14eg safle Carwyn Davies (Llanwrda) yn ras lwybr Hanner Marathon Goffa Ron Skilton yn Llanwrtyd ar yr 21ain. Gyda throad yr awr, bydd y rhedwyr fel pawb arall yn wynebu nosweithiau tywyll wrth baratoi am yr olaf o'r rasys a drefnir gan y clwb eleni, sef Ras y Mast i ben mynydd Pencarreg ac i lawr ar y 24ain o Dachwedd.

Llanybydder

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Meryl Davies, Maes-y-Barcud sy'n dathlu pen-blwydd arbennig ar y 6ed o Dachwedd.

Diolch

Hoffai Tim Davies, Llys Enwyn ddiolch am y cardiau a'r cyfarchion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 60 ar ddechrau'r mis. Llwyddodd i gasglu dros £800 ar gyfer Cymdeithas Alzheimers a hoffai ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd.

Cyngor Cymuned Llanybydder

Rhoddyd £500 i Eglwys Llanybydder er mwyn atgyweirio'r to. Mae'r Cyngor wedi archebu baner i'w rhoi ar bolyn ger y Gofgolofn a bwriedir archebu baner i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi hefyd. Mae'r Cyngor wedi gofyn am bolyn ac

amserlen i'w rhoi ar ffordd B4337 ar fryn San Pedr gan nad yw teithwyr yn gwybod ble i sefyll er mwyn dal y bws.

Capel Aberduar

Ar y trydydd ar ddeg o Hydref, aeth nifer o aelodau Capel Aberduar ynghyd â ffrindiau i oedfa 'Dathlu'r Deugain' yng nghapel Bethel Mynachlogddu. Oedfa oedd hon i ddathlu bod y Parch Eirian Lewis, un o blant Aberduar, wedi bod yn y weinidogaeth ers deugain mlynedd. Cynhaliwyd y dathliadau i gyd yn ardal y Preselau. Yn y llun mae Eirian a'r criw o Aberduar ynghyd â'u gweinidog y Parch Densil Morgan a wnaeth longyfarch Eirian ar ran aelodau Aberduar a'r ofalaeth yn ystod yr oedfa.

Diolch

Dymuna Kay a Steve, 70 Bro



Einon, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, wedi iddynt golli tad-cu mor annwyl, sef Hyw Davies, Ornant, Llanwnnen. Hoffent ddiolch am bob cymorth, cymwynas a gofal dros y flwyddyn a aeth heibio, yn ystod salwch Hyw. Diolch yn fawr iawn hefyd i bawb am y cyfraniadau hael tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon, Pwyllgor Llanybydder, Llambled a'r Cylch a Meddygfa Brynmeddyg

Llanybydder er cof amdano. Diolch i bawb am bopeth.

Gwellhad Buan

Dymuna Margaret Jones, Llysawel ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion, galwadau ffôn a'r dymuniadau o wellhad buan, ac i bawb a fu'n ymweld â hi ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i chi gyd.

Llanybydder



Sioe Ffasiwn , Clwb Hoci Llanybydder



Eisteddfod Pumsaint - Sadwrn 26ain Hydref

Enillwyr cystadleuaeth 10-12oed - o'r chwith - Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd yn ennill y cyntaf am lefaru ac ail ar yr unawd; Alwena Mair Owen, Llanllwni y cyntaf ar yr unawd ac yn drydydd ar y llefaru; Peredur Hedd Llywelyn, Llandysul yn ail ar y llefaru a chydredd trydydd ar yr unawd gyda Beca Ebenezer, Cellan. Hefyd enillodd Alwena y cyntaf ar yr Alaw Werin dan 12oed.



Eisteddfod Gadeiriol Felin-fach - Enillwyr 8-10oed. O'r chwith - Mari Williams, Tregaron, Cyntaf am lefaru ac ail am ganu; Fflur Meredith, Llambled cydradd trydydd am ganu; Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni Cyntaf am ganu ac ail am lefaru. Hefyd enillodd Gwennan y cyntaf am ganu Emyrn; Annie Thomas, Pencarreg yn gydradd drydydd am ganu a Delun Ebenezer, Cellan yn ail am ganu Emyrn dan 12oed



Eisteddfod Gadeiriol Felin-fach - Enillwyr 6-8oed. O'r chwith = Delun Ebenezer, Cellan yn ennill Tlws Llefaru; Ela Gwen Keegan, Tregaron yn cipio Tlws yr unawd ac ail ar y llefaru ac Anni Grug Hughes Tregaron yn ail ar yr unawd a thrydydd am lefaru.



Cynhaliwyd Eisteddfod Pumsaint ar dydd Sadwrn 26ain Hydref
Enillydd cystadleuaeth yr Unawd a'r Llefaru 8-10oed oedd Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni



Eisteddfodau Lleol



Eisteddfod Llanarth - Sadwrn Hydref 4ydd. Enillwyd y Llefaru 8 -10 oed gan Trystan Bryn Evans, Pumsaint a ddaeth yn drydydd hefyd ar yr unawd; Elin Morgan, Cribyn a ddaeth yn gyntaf ar yr unawd a chydredd trydydd yn y llefaru; Fflur Morgan, Drefach (chwith) a ddaeth yn gydradd trydydd yn y llefaru; Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni a ddaeth yn ail am lefaru ac ail yn yr unawd.



Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Felin-fach ar Fedi 27ain. Enillwyr 10-12oed - Ela Mablen Griffiths Jones, Cwrtnewydd yn gyntaf ar y llefaru a'r unawd gyda Beca Ebenezer, Cellan yn ail yn y ddwy gystadleuaeth ac Ifan Williams, Tregaron yn drydydd ar y llefaru. Ela Mablen hefyd yn gyntaf yn y Cerdd Dant.

Clybiau Ffermwyr Ifanc

Eisteddfod C.Ff.I Sir Gâr 2019

Eto eleni bu cystadlu brwd yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin yn Eisteddfod Sir Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr ar nos Wener y 11eg, nos Wener 18fed a Dydd Sadwrn 19eg o Hydref. Ar ôl dwy noson a diwrnod o adloniant o safon uchel iawn, C.Ff.I Pen-y-bont gipiodd darian yr Eisteddfod am y chweched tro yn olynol. Llongyfarchiadau i'r clwb a hefyd i C.Ff.I Llanddarog am ddod yn ail, ac i C.Ff.I Dyffryn Cothi a C.Ff.I Dyffryn Tywi am ddod yn gydradd gyntaf yn yr adran gwaith cartref ac yn rhannu tarian Elonwy Phillips. Roedd gwaith caled iawn o flaen ein beirniaid gyda'r holl gystadlu. Mae ein diolch yn mynd iddynt hwy i gyd am eu gwasanaeth. Bu Meinir Jones Parry yn beirniadu'r adran gerdd, Bronwen Morgan yn y llefaru, Cefin Vaughan yn yr Adran Ysgafn, Caryl Edwards y ddawns disgo, Myfanwy Rees yn y Dawnsio Gwerin a Heiddwen Tomos ac Eurfyl Lewis yn yr Adran Gwaith Cartref. Ein llywyddion ar gyfer yr Eisteddfod eleni oedd Dyfan James ar y nos Wener gyntaf, Brian ac Ann Walters ar gyfer yr ail nos Wener, yna Llinos Jones ar gyfer y Dydd Sadwrn. Diolch yn fawr iddynt am eu geiriau pwrpasol o'r llwyfan ac am eu rhoddion hael tuag at gyllid y Mudiad yn Sir Gâr. Buom yn ffodys iawn i gael Elin Rees yn gyfeilydd yn yr Eisteddfod eleni eto. Rydym yn diolch iddi am ei gwasanaeth a hefyd y cyfeilyddion eraill. Diolch hefyd i'r sawl fu'n arwain yn yr Eisteddfod eleni - Aled Thomas, Iestyn Owen, Hefin Evans, Sion Evans, Angharad Thomas a Carwyn Jones. Diolch yn fawr hefyd i bawb oedd yn gweithio tu cefn llwyfan ac wrth y drws gyda Swyddogion a ffrindiau eraill y Mudiad. Mae ein diolch yn fawr i'n cofiaduron oedd wrthi'n gofalu am y sgoriau -diolch i Jane Morgan, Marian Thomas ac Angela Isaac. Diolch hefyd i Llinos Jones fu yng ngofal y tystysgrifau a Dylan Bowen oedd yng ngofal y Sain a'r Golau.

Eleni, fe wnaeth un o arweinwyr C.Ff.I Llanddarog, Nia Thomas, gomisiynu Mari Thomas i greu coron arbennig er cof am ei rhieni, Olwen a John Thomas. Rydym yn ddiolchgar iawn i Nia am y rhodd yma i'r Sir. Enillydd cyntaf y goron yma oedd llys genhades y Sir, Angharad Thomas o C.Ff.I Dyffryn Tywi. Cafodd cerflun cyfoes ei roi gan gyn-gadeirydd y Sir, Carys Thomas i Angharad â greuwyd gan Alan Jones a'i ferch, Lowri Jones. Enillydd y gadair eleni oedd Ceri Davies o C.Ff.I Dyffryn Cothi. Roedd y gadair yn rhoddedig eleni gan Gadeirydd y Sir, Iestyn Owen. Cafodd y gadair yma ei chreu gan aelod o C.Ff.I Capel-Arthne, Owen Phillips. Llongyfarchiadau i

Angharad a Ceri, a diolch i bawb a gymrodd ran yn y Seremoni, yn enwedig i Jean Lewis, Llywydd y Sir am redeg y seremoni yn hwylus iawn. Diolch i C.Ff.I Pen-y-bont am stiwardio dros yr Eisteddfod gyfan a diolch i W D Lewis, All Pump Services a Chyfrifwyr LHP am noddi'r digwyddiad.

Dyma ganlyniadau'r Eisteddfod: Cystadlaethau Llwyfan. **Unawd Offerynnol** 1. Dafydd Owen, C.Ff.I Llanddarog, 2. Alpha Evans, C.Ff.I Cwmann, 3. Daniel O'Callaghan, C.Ff.I Pen-y-bont. **Unawd Alaw Werin** 1. Elen Bowen, C.Ff.I Capel Iwan, 2. Haen Richards, C.Ff.I Pen-y-bont, 3. Carwen George, C.Ff.I Dyffryn Cothi, **Canu Emyn** 1. Elen Bowen, C.Ff.I Capel Iwan, 2. Heledd Thomas, C.Ff.I Llangadog, 3. Owain Rowlands, C.Ff.I Llanfynydd, **Sgets**, 1. C.Ff.I Pen-y-bont, = 2. C.Ff.I Llanymddyfri = 2. C.Ff.I Llanllwni. **Dawnsio Gwerin** 1. C.Ff.I Penybont, 2. C.Ff.I Capel Iwan, 3. C.Ff.I Llanllwni, **Ensemble Offerynnol** 1. C.Ff.I Llanddarog, 2. C.Ff.I Pen-y-bont, **Ar y Newyddion** 1. C.Ff.I Llanllwni, 2. C.Ff.I Capel Iwan, 3. C.Ff.I Penybont, **Cân Gyfoes** 1. C.Ff.I Dyffryn Cothi, **Côr Cymysg** 1. C.Ff.I Pen-y-bont, 1. C.Ff.I Llanddarog, 2. C.Ff.I Dyffryn Cothi, Llanfynydd, Llangadog & Llanymddyfri, **Unawd 16 neu iau** 1. Elan Jones, C.Ff.I Cwmann 1. Lowri Voyle, C.Ff.I Llanddarog 1. Elin Thomas, C.Ff.I Llanddarog, **Llefaru 18 neu iau** 1. Olwen Roberts, C.Ff.I Penybont, 2. Glasnant Jenkins, C.Ff.I Dyffryn Cothi, 2. Esther Defis, C.Ff.I Capel Iwan, **Unawd 21 neu iau**, 1. Owain Rowlands, C.Ff.I Llanfynydd, 2. Non Roberts, C.Ff.I Llangadog, 2. Daniel O'Callaghan, C.Ff.I Penybont, **Llefaru 21 neu iau** 1. Daniel O'Callaghan, C.Ff.I Penybont, 2. Heledd Jones, C.Ff.I Dyffryn Tywi, **Unawd 26 neu iau** 1. Carwen George, C.Ff.I Dyffryn Cothi. **Llefaru 26 neu iau** 1. Owain Davies, C.Ff.I Llanllwni 2. Carwen Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi 3. Nia Davies, C.Ff.I San Clêr. **Deuawd 26 neu iau** 1. Mari a Cadi James, C.Ff.I Llangadog 2. Elin Thomas a Lowri Voyle, C.Ff.I Llanddarog, 3. Carwen George a Carys Haf, C.Ff.I Dyffryn Cothi. **Dawns Disgo** 1. C.Ff.I Llanon, 2. C.Ff.I Cwmann, 3. C.Ff.I Llanymddyfri. **Parti Llefaru 26 neu iau** 1. C.Ff.I Llanddarog, 2. C.Ff.I Dyffryn Tywi, 3. C.Ff.I Pen-y-bont. **Meimio i Gerddoriaeth** 1. Caef Pen-y-bont, 2. C.Ff.I Llangadog, 3. C.Ff.I Llanllwni. **Ymgom** 1. C.Ff.I Penybont 2. C.Ff.I Dyffryn Cothi. **'Sgent ti Dalent?** 1. Hanna Thomas a Catrin Daniel, C.Ff.I Llanllwni 2. Owain Davies, C.Ff.I Llanllwni 3. Ifan Williams, C.Ff.I Llangadog. **Monolog** 1. Llew Pryce, C.Ff.I Pen-y-bont, 2. Deian Thomas, C.Ff.I

Dyffryn Cothi. **Unawd Sioe Gerdd neu Ffilm** 1. Owain Rowlands, C.Ff.I Llanfynydd, 2. Ceulyn Davies, C.Ff.I Hendy-gwyn, =3. Hannah Richards, C.Ff.I Pen-y-bont, =3. Lowri Voyle, C.Ff.I Llanddarog. **Ensemble Lleisiol** 1. C.Ff.I Capel Iwan, 2. C.Ff.I Pen-y-bont, 3. C.Ff.I Llanddarog. **Deuawd neu Driawd Doniol** 1. Hefin Jones, Ifor Jones a Sioned Howells, C.Ff.I Llanllwni, 2. Osian Davies ac Edryd Davies, C.Ff.I Capel Iwan, 3. Carwyn Jones, Jac Davies a Tomos Jameson, C.Ff.I Penybont. **Parti Deusain** 1. C.Ff.I Llanddarog, 2. C.Ff.I Penybont Merched, 3. C.Ff.I Capel Iwan. **Gwaith Cartref - Rhyddiaith** 1. Angharad Thomas, C.Ff.I Dyffryn Tywi 1. Carys Hughes, C.Ff.I Llanymddyfri 2. Ffion Anderson, C.Ff.I Llanddarog. **Cerdd** 1. Ceri Davies, C.Ff.I Dyffryn Cothi, 2. Alpha Evans, C.Ff.I Cwmann, 3. Sioned Bowen, C.Ff.I Llanllwni. **Cystadlleuaeth i aelodau 26 neu iau** 1. Fiona Phillips, C.Ff.I Pen-y-bont, 2. Sulwen Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi, 3. Cerys Thomas, C.Ff.I Dyffryn Tywi. **Cystadlleuaeth i aelodau 21 neu iau** 1. Gwenno Roberts, C.Ff.I Llanfynydd, 2. Heledd Jones, C.Ff.I Dyffryn Tywi, 3. Hannah Jones, C.Ff.I Llangadog. **Cystadlleuaeth i aelodau 16 neu iau** 1. Hywel Jones, C.Ff.I Dyffryn CothiGruff Jones, C.Ff.I Llangadog 2. Lois Davies, C.Ff.I Llangadog. **Brawddeg** 1. Llew Pryce, C.Ff.I Penybont 2. Cao Pryce, C.Ff.I Pen-y-bont, 3. Sioned Howells, C.Ff.I Llanllwni. **Ffotograffiaeth** 1. Aled Havard, C.Ff.I Dyffryn Tywi 2. Elan Thomas, C.Ff.I Penybont 3. Jack Davies, C.Ff.I Llangadog. **Limrig** 1. Sioned Howells, C.Ff.I Llanllwni 2. Lowri Elen Jones, C.Ff.I Dyffryn Tywi 3. Gwenann Jones, C.Ff.I Dyffryn Tywi. **Celf** 1. Siriol Richards, C.Ff.I Llandeilo, 2. Lowri Elen Jones, C.Ff.I Dyffryn Tywi, 3. Gwenann Jones, C.Ff.I Dyffryn Tywi. **Cywaith Clwb** 1. C.Ff.I Penybont, 2. C.Ff.I Dyffryn Cothi, 3. C.Ff.I Llanllwni



Cyflwynwyd sic o £1200 i Dir Dewi gan Gadeirydd C.Ff.I Sir Gâr yn Neuadd Pontargoithi yn ddiweddar

Cyfarfod Blynnyddol C.Ff.I Sir Gâr
Ar Nos Fercher, 25ain o Fedi,

cynhaliwyd cyfarfod blynnyddol Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr yn Neuadd Pontargoithi. Cyn dechrau'r cyfarfod, cyflwynwyd sic o £1200 i Dir Dewi gan Gadeirydd y Sir am y flwyddyn ddiwethaf; Miss Carys Thomas yn dilyn y Noson Garolau yn Rhagfyr 2018 a'r Gymanfa Ganu yn ystod yr haf. Cyflwynwyd sic o £11,150 hefyd i'r DPJ Foundation gan Lysgenhadon a Chadeirydd y Sir. Codwyd y swm yma drwy noson Twrci Bingo, Noson hwyl a gemau a hefyd sialens y tri chopa Cymru nôl ar ddechrau'r haf.



Iestyn Owen - Cadeirydd



Hefin Evans - Is-Gadeirydd

Mr Iestyn Owen, C.Ff.I Capel-Arthne gafodd ei ethol yn Gadeirydd Sir am 2019-2020 gyda Mr Hefin Evans, C.Ff.I Capel Iwan yn Is-gadeirydd am y flwyddyn. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw. Diolch yn fawr iawn i Miss Carys Thomas am ei gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf fel Cadeirydd y Sir. Hefyd yn y cyfarfod, cafodd Aled Thomas, C.Ff.I Dyffryn Cothi ei ethol yn Gadeirydd Gweithgareddau, a Siôn Evans, C.Ff.I Llanllwni yn Is-gadeirydd ar y Pwyllgor. Elin Childs, C.Ff.I Llanfynydd bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid gyda Sian Williams, C.Ff.I Llangadog yn Is-gadeirydd ar y Pwyllgor.

Mrs Jean Lewis gafodd ei ail-ethol fel Llywydd y Sir gyda Mr Elfyn Davies yn cael ei ail-ethol fel Is-lywydd. Llongyfarchiadau iddynt hwy ac rwy'n siŵr bydd y ddau yn parhau i gefnogi gweithgareddau'r Mudiad yn y Sir dros y flwyddyn nesaf. Yn ystod y cyfarfod blynnyddol cyhoeddwyd mai Clwb Ffermwyr Ifanc Pen-y-bont oedd enillwyr Cwpan John a Hazel James am y clwb gyda'r pwyntiau uchaf yng nghystadlaethau'r Sir am y

Clybiau Ffermwyr Ifanc

flwyddyn 2018-19 a hynny am yr ail flwyddyn o'r bron. Clwb Ffermwyr Ifanc Llanfynydd a Chlwb Ffermwyr Ifanc Pen-y-bont oedd yn derbyn Cwpan coffa Elfyn Richards am y clwb gyda'r pwyntiau uchaf yng nghystadlaethau siarad cyhoeddus Cymraeg a Saesneg am 2019-2020 hefyd.

Barnu Stoc

Cynhaliwyd cystadleuaeth Barnu Stoc flynyddol y Clwb ar Fferm Pantycelyn eleni, drwy garedigrwydd Emlyn a Danny Jones. 1af: Jessica Jones, 2ail: Hywel Jones, 3ydd: Gary Jones. Diolch i Mr. Alun Richards am hyfforddi'r aelodau ac am feirniadu'r gystadleuaeth.

Cwrdd Diolchgarwch

Ar nos Iau'r 3ydd o Hydref, cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch blynyddol y Clwb yng Nghapel Salem. Dymuna'r Clwb ddiolch i Mr. Alun Lenny am ei bregeth gyfoes, i'r 48 o bobl oedd yn bresennol ar y noson, i Mrs. Avril Evans am gyfeilio, i aelodau'r Capel am gael cynnal ein Cwrdd yno ac i Mrs. Eleanor Lewis am gludo'r

ffrwythau a'r llysiau i Gartref Nyrsio Blaenos, Llanymddyfri. Dyma'r aelodau wnaeth gymryd rhan: Emyr Cymraeg - Jessica Jones, Darlleniad Cymraeg - Gethin Mathias, Emyr Saesneg - Dion Davies, Gweddi Cymraeg - Lynwen Mathias, Gweddi Saesneg - Taidgh Mullins, Darlleniad Saesneg - Ceri Davies. Deri Mullins a Gary Jones oedd yn gyfrifol am ddosbarthu'r rhaglenni, ac Owen Davies ac Alex Lewis aeth ati i wneud y casgliad (a fydd yn mynd at elusen o ddewis y Clwb).

Noson yng Nghwmni

Rhoddwyd cynnig ar ddigwyddiad cyhoeddus newydd eleni, sef Noson yng Nghwmni. Gwahoddwyd Ben Lake (AS), Meinir Howells (Cyflwynwraig) a Rhys Price (Ymgwymerwr) i Neuadd Bro Fana, Ffarmers ar y 25ain o Hydref i ddiddanu cynulleidfada leol wrth gyflwyno'u gwaith yn fras ac ymateb i gwestiynau o'r llawr. Diolch iddynt am eu hamser. Cafwyd paned a chlonc wedi'r cyflwyniadau, gyda'r arian yn mynd at Bwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2021.

C.Ff.I Dyffryn Cothi

Noson Agoriadol

Cynhaliwyd noson gyntaf calendr 2019-2020 Dyffryn Cothi ar nos Wener, y 30ain o Awst ym Mharc Bro Fana, Ffarmers. Chwaraewyd gêm o rownderi a chafwyd barbiciw blasus er mwyn croesawu pawb yn ôl wedi'r Haf, ac er mwyn croesawu ambell aelod newydd i'r Clwb. Dymuna'r aelodau ddiolch i'r arweinyddion am drefnu'r cyfan.

Taith Fferm

Ar y 6ed o Fedi, ymwelwyd â Fferm Ynysau, Pumsaint a diolch i Gail ac Arwel Jenkins, dau o arweinyddion y Clwb eleni am eu caredigrwydd. Cafwyd noson ddifyr a diddorol yn eu cwmni. Gwelwyd eu system magu lloï manwl, a chafwyd rownd gyflym o 'Fferm Ffactor' yn y sied ar ddiwedd y noson. Llongyfarchiadau i Glyn, Ceri, Aled, Deri, Hywel, Owen, Jake ac Alex ar ennill y gystadleuaeth danbaid!

Paratodau'r Eisteddfod

Cafwyd cyfarfod byrlymus ar y 13eg o Fedi yn Neuadd Bro Fana,

Ffarmers. Cyfarfod oedd hwn i benderfynu pa eitemau y byddai'r aelodau'n cystadlu ynddynt eleni yn Eisteddfod CFfI Sir Gâr ym mis Hydref. Ar y 19eg, cynhaliwyd ymarfer Eisteddfod a chawsom gyfle i fwrw ymlaen gydag ambell eitem Gwaith Cartref hefyd.

Sioeau Lleol

Dros yr Haf eleni, roedd stondin gyda'r Clwb yn eu tair sioe leol sef Cwrt y Cadno, Llansawel a Chaeo a Llanyerwys. Cynhaliwyd cystadlaethau Barnu Stoc yn y tair sioe a chodwyd arian at goffrau'r Clwb. Dymuna'r aelodau ddiolch i drigolion y dalgylch am eu cefnogaeth beth bynnag fo'r digwyddiad.

Cinio Dathlu

Bu Carys, Anna a Carwen yn dathlu 75 mlynedd o fodolaeth Mudiad CFfI Sir Gâr ar yr 20fed o Fedi yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin. Braf oedd clywed araith egniol cyn-aelod Dyffryn Cothi sef Aled Jones, a oedd yn Siaradwr Gwadd ar y noson.

Cymorth Cristnogol

Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol

Dros dymor yr Adfent a'r Nadolig bydd eglwysi a chapeli yn cofio sut y bu doniau un fam ifanc sicrhau fod neges Duw am gariad, gobaith a heddwch yn cyrraedd y byd ym mherson ei baban bach. Trwy'r doniau roddodd Duw iddi, gofalodd Mair am y baban Iesu a'i fagu i fod yn un drawsnewidiodd y byd. O amgylch y byd heddiw, mae miliynau o ferched yn magu plant mewn sefyllfaoedd caled iawn oherwydd tlodi a rhagfarn. Ond fel Mair, maent hwythau yn defnyddio'u doniau i roi bywyd gwell i'w teulu. Yn India, dechreuodd Ranjita, 30, fynd gyda'i

mam i gasglu sbwriel pan oedd ond yn naw oed. Fel casglwr sbwriel, dioddefodd ddyddiau 10-15 awr o waith israddol oedd yn cynnwys glanhau, cario a symud carthion dynol o doiledau a charthffosydd - a hynny i gyd gyda'i dwylo. Fel Dalit - yr isaf a'r mwyaf gwrthodedig yn system cast India - roedd yn dlawd ac ar y cyrion, a doedd ganddi fawr o gyfle i allu dianc y cylch systemig o dlodi yr oedd wedi ei dal ynddo. Ranjita gaiff y sylw yn Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol eleni, oherwydd gyda help partner Cymorth Cristnogol yn India, ARUN, mae Ranjita wedi dysgu bod ganddi hawliau a cheisiodd am grant gan

y llywodraeth yno, a thrwy hynny cychwynnodd ei busnes gwnïo ei hun. Trwy'r doniau roddodd Duw iddi, mae Ranjita wedi llwyddo i ddianc y tlodi eithafol hwn. Mae hyd yn oed yn gallu anfon ei merch ieuengaf, Soniya, i'r ysgol - y cyntaf o'i phlant i wneud hynny. Y Nadolig hwn, beth am helpu mamau fel Ranjita i ddefnyddio'r doniau roddodd Duw iddynt i ddianc rhag tlodi, a chreu gobaith a dyfodol newydd iddyn nhw eu hunain a'u plant. Mewn byd o anghydraddoldeb ac anghyfiawnder, gyda'n gilydd gallwn newid bywydau. Bydd nifer o eglwysi a chapeli yn cynnal gwahanol weithgareddau er budd

Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol dros y tymor hwn a bydd croeso mawr i chi fod yn bresennol. Os nad oes gweithgaredd yn eich ardal chi, cewch gyfle i gefnogi'r apêl trwy fynd i wefan Cymorth Cristnogol yn caid.org.uk/christmas-appeal.



Drefach a Llanwenog

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Cyng Bill Green.

Clerc: Gwennan Jenkins

Sul y Cofio – 10.11.2019

Bydd gwasanaeth Sul y Cofio yn cael ei gynnal fel arfer am lyp ger y Gofgolofn dan ofal y Canon Eileen Davies.

Ciosgau

Efallai eich bod chi wedi sylwi bod tri Ciosg yn y Plwyf wedi eu peintio yn wyrdd llachar. Y rheswm am hyn yw bod Diffibriliwr yng Nghiosg Cwrtnewydd, Drefach a Chwmsychbant, ac mae'r lliw newydd yn dangos fod pwrpas y ciosgau hyn wedi newid o ran eu defnydd. Cofiwch fod nifer o lyfrau yng nghiosgau Drefach a

Chwrtnewydd hefyd. Defnyddiwch nhw!

Cyfarfodydd Agored

Yn y flwyddyn Newydd, bydd sesiynau galw heibio yn cael eu cynnal gan y Cynghorwyr Cymuned ym mhentrefi'r plwyf. Bydd hyn yn gyfle i chi fynegi eich barn a rhannu syniadau am yr hyn rydych yn teimlo y dylai'r Cyngor Cymuned fod yn ei wneud. Bydd manylion pellach yn ymddangos yng nghalendr Clonc ac yn y golofn hon.

C.Ff.I. Llanwenog

Ar ôl mis o joio a thrampo, dyma ddechrau ar y cystadlu. Bu aelodau'r clwb yn brysur yn paratoi ar gyfer y diwrnod maes a gynhaliwyd ar fferm

Trawsgoed. Abermagwr ar y 28ain o Fedi. Dyma rhai canlyniadau'r dydd:- Barnu Stoc dan 18, Ben Lewis, Elin Davies, Osian Davies ac Owain Jones yn gyntaf fel tîm ac Elin yn gyntaf fel y stocman gorau o dan 18. Meryl yn gyntaf yn y gystadleuaeth addurno torch a Lois yn ail yn y gystadleuaeth paratoi'r cyw iâr. Lauren, Sioned a Meinir yn drydydd yn y gystadleuaeth Ar y Newyddion a hefyd Osian ac Owain yn drydydd yn y sialens ATV. Daeth y clwb yn 2il ar ddiwedd y dydd! Llongyfarchiadau i chi gyd! Diolch i bawb a fu'n hyfforddi'r aelodau. Wedyn, cawsom ni noson llawn ffritwydd wrth wneud Zumba yn Ysgol Dyffryn Cledlyn. Dyma noson

o hwyl a chwerthin! Braf oedd cael cynnal ein Cwrdd Diolchgarwch eleni yn Eglwys Llanwenog ac roedd yn hyfryd cael araith bwrpasol yn ein hannog i wneud y gorau o'n hamser o dan reolaeth Y Parchedig Eileen Davies. Codwyd £143 i elusen Golau sef elusen sy'n codi ymwybyddiaeth o ganr drwy roi'r cyfleusterau a'r offer ar ofal er mwyn gallu ymladd yn erbyn yr afiechyd ofnadwy yma yn Ne Gorllewin Cymru. Cyfrannodd aelodau'r clwb lu o ffrwythau a llysiau a rhoddwyd hwy i gartref Maes y Felin, Drefach. Os oes gennych ddiddordeb i ymuno â'r clwb neu am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan: www.cffillanwenog.org.uk

Ysgol Dyffryn Cledlyn



Tîm Rygbi Merched



Plant yn sgwrsio â Takeshi o Tokyo

Diolch yn fawr i Ymddiriedolaeth R R Davies Trust am gefnogi ein cais a'n caniatáu ni i ddatblygu'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad mae'r disgyblion yn gallu chwarae mewn corneli tywod, defnyddio'r gegin fwd, a rhoddwyd arwyddion llachar addysgiadol tu allan. Diolch yn fawr am y gefnogaeth ariannol yma. Bu'r gystadleuaeth bêl droed flynyddol yn llwyddiant mawr eto eleni. Gwelwyd cystadlu brwd mewn tywydd gogoneddus. Llongyfarchiadau i'r enillwyr. Tîm Bro Pedr gipiodd y darian i fechgyn blwyddyn 5 a 6 yn ogystal â tharian blwyddyn 3 a 4 a Merched Ysgol Carreg Hirfaen ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth y merched. Da iawn chi. Llwyddwyd i gasglu dros £1,200 i goffrau'r ysgol trwy drefniant y noson. Diolch yn fawr i bwyllgor gweithgar Rhieni a Chyfeillion yr ysgol am eu gwaith wrth drefnu'r noson. Diolch yn fawr i Owain am ymuno â ni i roi hyfforddiant rygbi i'r plant a hefyd i Ficer Eileen am ymweld i gymryd gwasanaethau boreol. Mae'r disgyblion wrth eu bodd yn derbyn negeseuon moesol pwysig mewn ffyrdd bywiog unigryw. Mae Ficer Eileen fel chwa o awyr iach ac yn codi calon pawb yn syth gyda'i hiwmor a'i brwdfrydedd.

Pleser o'r mwyaf oedd croesawi Rhian Jones o'r NSPCC i'r ysgol. Bu'n trin a thrafod negeseuon pwysig gyda'r plant ac fe dderbyniodd blwyddyn 5 a 6 weithdy diddorol oedd yn rhoi cyfle iddynt wyllo ffilmau ac i drafod a meddwl am eu hymatebion.

Sesiwn fuddiol dros ben. Diolch yn fawr iawn. Bu Sion Jones ac Elis Jenkins sef ein llysgenhadon ar ymweliad i ysgol Bro Pedr er mwyn derbyn hyfforddiant ar gyfer eu rôl yn yr ysgol. Byddant yn barod nawr i gynnal eu sesiynau er mwyn hybu iechyd a ffitrwydd. Da iawn bois. Mae blwyddyn 6 eleni wedi dechrau ar y broses o drosglwyddo i'r Uwchradd trwy fynychu diwrnod pontio ym Mro Pedr. Diolch iddynt am drefnu diwrnod diddorol a phrysur ar eu cyfer. Bu tîm rygbi merched yr ysgol yn cystadlu mewn cystadleuaeth yr Urdd yn Aberaeron yn ddiweddar. Chwaraeodd pawb yn dda iawn a chafwyd diwrnod pleserus yn datblygu sgiliau gwahanol. Llongyfarchiadau mawr i Elis Jenkins ar gael ei ddewis i garfan rygbi Sir Ceredigion. Mae eisoes wedi chwarae ei gêm gyntaf ac yn ymarfer yn gyson gyda'r tîm. Pob lwc i ti. Pleser oedd croesawu Lleucu Meinir o Gadwyn Teifi atom ni i weithio ar brosiect gyda blynyddoedd 5 a 6. Buom yn astudio gwlad Burkina Faso yn yr Affrig ac yn dechrau cynllunio gweithgareddau. Bydd y gwaith yn parhau yn ystod y tymor trwy gysylltu â chenhadrwr yn y wlad trwy gyfrwng Skype.

Dathlwyd y tymor 'Diolchgarwch' trwy gynnal gwasanaeth yn y neuadd. Thema'r gwasanaeth oedd 'Gwledydd y Byd mewn Cytgord'. Dysgwyd llawer iawn am draddodiadau gwahanol trwy gyflwyniadau, caneuon ac adroddiadau gwahanol. Diolch i'r rhieni ac aelodau o'r gymuned am

ymuno gyda ni yn y dathlu. I ddilyn ymlaen gyda'r thema yma trefnwyd Diwrnod Rhyngwladol lle bu pob dosbarth yn paratoi arddangosfa ac yn blasu bwydydd traddodiadol o wahanol wledydd. Diolch i'r disgyblion am wneud ymdrech arbennig i wisgo mewn gwisgoedd diddorol oedd yn cynrychioli'r gwledydd amrywiol. Cawsom ein diddanu a'n haddysgu wrth weld Mr Ebbsworth yn ei 'Gi' ymrafael Siapancaidd yn coginio pryd hynod flasus o reis a nwdls o flaen criw o ddisgyblion llwglyd. Roedd yn ei gynefin yn ei gegin fach symudol a'r plant wrth eu bodd yn dysgu crefft cogydd o fri. Aeth disgyblion CA 2 ar daith addysgiadol i Lanerchaeron. Cafwyd cyfle i ymweld â'r Plasty, gweld nifer o hen greiriau yn cynnwys casgliad mecanyddol Geler Jones. Diolch yn fawr iawn i Mrs Sioned Mills am drefnu'r ymweliad hynod fuddiol yma. Cafwyd gwledd o ganu a dawnsio dan arweiniad Sam Ebenezer yng nghyngerdd Sbrî Dirî 'yr Urdd. Daeth disgyblion Bro Pedr atom ni i Ddyffryn Cledlyn i fwynhau'r arlwy gerddorol ac ymunodd y dyn ei hun sef Mr Urdd yn yr hwyl hefyd.

Dysgodd y plant lawer iawn am ddiogelwch a hylendid bwyd trwy wyllo drama fyrlymus trwy drefniant Yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cafwyd gweithdy trafod i ddilyn. Aeth disgyblion blynyddoedd 5 a 6 i Wyl Chwaraeon yng nghanolfan Hamdden Llanbed. Ni fu'r tywydd yn garedig ond ail addaswyd yn hynod o effeithiol a chafodd y plant fore da o weithgareddau.

Cawsom ddiwrnod 'Cyfrifiad' ar yr wythnos olaf lle buom yn dysgu beth yn union yw Cyfrifiad a pha fath o wybodaeth sy'n cael ei gasglu. Bu pob dosbarth yn gwneud gweithgareddau gwahanol er mwyn dysgu a chyfarwyddo gyda'r arferiad yma. Bydd y cyfrifiad gwladol nesaf yn 2021. Diolch i PC Hannah am ddod i mewn hefyd i drafod Gwrth Fwlio a hefyd gwahaniaethu rhwng 'ffrind a gelyn' gyda'r disgyblion. Sesiynau pwysig a buddiol dros ben.

Cefnogwyd ymgyrch Bocsys Romania unwaith eto eleni, a danfonwyd llu o flychau yn llawn anrhegion er mwyn gwneud Nadolig plant llai ffodus ychydig yn fwy pleserus. Diolch i chi blant am gefnogi ac am roddi mor hael. Profiad gwych oedd cael cyfle i gael sgwrs yn Gymraeg gyda Takeshi o Tokyo. Gwr bonheddig a fu'n byw yn Llanbed am gyfnod beth amser yn ôl. Bu'r plant yn ei holi trwy gyfrwng SKYPE ac yn dysgu llawer iawn am fywyd yn Japan a Tokyo.



Cogydd Siapancaidd Dyffryn Cledlyn!

Cylch Meithrin Cledlyn



Mae'r plant wedi bod yn brysur yn astudio'r thema "Pobol sy'n ein helpu." yn ystod y tymor. Bu'r disgyblion yn ymweld â'r Orsaf dân a bu'r heddlu'n ymweld â ni yn y Cylch.

Cofiwch fod y Cylch ar agor bob dydd o 9 y bore i 3.15 y prynhawn. Diolch hefyd i "Mamis Mentrus" am adael i ddigwyddiad diweddar yn y Falcondale ganiatáu elw'r raffl codi arian i fynd i gronfa'r Cylch. Diolch i

bawb a ddaeth i gefnogi. Mae Cylch Ti a fi Cledlyn yn dal i gwrdd ar fore Llun rhwng 9 -10.30.

Dewch i'n gweld a chymdeithasu gyda'ch gilydd. Cofiwch gall plant 0 - 2 ymuno. Bydd gweithgareddau Nadolig ar ôl hanner tymor.

Cymdeithas Edward Llwyd

Dach chi'n gwybod eich bod chi'n heneiddio pan mae'r wythnosau yn dechrau carlamu tuag at achlysur arbennig – y Nadolig! Ia, mae pobl wedi dechrau dweud wrthon ni faint o ddyddiau sydd i fynd. Roedd meddwl am anrhegion yn ddigon anodd llynedd a dyma'r holl beth yn dechrau eto! Dyma rywbeth i chi ystyried - beth am roi pâr o 'sgidiau cerdded, neu ofyn am bâr i chi'ch hun. Neu hyd yn oed gwneud pact i chi'ch dau cael pâr. Dim digon o ramant yn y syniad? Dw'n i ddim chwaith, meddylwch am y ddau ohonoch yn treulio amser yn ein cefn gwlad ac yn mwynhau cael gweld gwyrth byd natur yn datblygu trwy'r tymhorau. Mi ydan ni'n byw yn y wlad orau yn y byd, mae cymaint i'w fwynhau. Y rhantant fydd i fwynhau hynny efo'ch gilydd. Ond gwnewch yn siŵr, da chi, eich bod chi'n prynu 'sgidiau gwell na'r pâr yn y llun.

Beth? Dach chi'n gerddwyr brwd yn barod? Mae'n ddrwg gen i ond dw i ddim yn gwybod beth i'w awgrymu ... na, mae gen i syniad - allech chi brynu aelodaeth Cymdeithas Edward Llwyd i'ch gilydd a mwynhau ein cwmni tu



allan yng nghefn gwlad pob dydd Sadwrn. Rhatach na 'sgidiau hefyd. Mwynhewch eich Nadolig beth bynnag ac edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal. Bydd croeso mawr i chi. Nadolig Llawen i chi gyd!

Rob Evans

Cellan

Pen-blwydd arbennig

Dymuniadau gorau i Ken Jones Glasfryn, Cellan sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar Dachwedd 13eg. Mwynhewch y dathlu.

Gwerthir CLONC yn

..... y siopau canlynol:

Aeron Booksellers, Aberaeron
Awen Teifi, Aberteifi
Co-op, Llambled
Cyfoes, Rhydaman
Eryl Jones, Llambled
Garej Central, Llanwnnen
Garej Checkpoint, Harford
Garej Heol y Gogledd, Llambled
Ffab, Llandysul
Jones Bros, Llambled
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Mark Lane, Llambled
Medical Hall, Tregaron
Premier Siop y Gymuned, Llambled
Siop y Bont, Llanybydder
Siop y Smotyn Du, Llambled
Siop y Pethe, Aberystwyth
Siop y Pentan, Caerfyrddin
Swyddfa Bost, Llanybydder
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
W D Lewis a'i Fab, Pumsaint

Gorsgoch

Gwellhad buan

Gobeithio fod Byron Williams yn teimlo'n well yn dilyn ei lawdriniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Glangwili.

Clwb Llyfrau

Mae'r clwb llyfrau yn cwrdd yn neuadd yr Hafod ar y 3ydd nos Fercher o'r mis ac mae croeso i unrhyw un i ymuno â ni. Tonnau Tryweryn gan Martin Davis yw'r llyfr y mis yma. Os am gopi yna cysylltwch â Margaret Wilson. Fel arfer byddwn yn darllen llyfr

Cymraeg a Saesneg bob yn ail fis.

Merched y Wawr

Ym mis Hydref cawsom arddangosfa goginio yng nghwmni Sian Jenkins Castell. Coginiodd bryd blasus o dri chwrs i ni gan siarad yn hamddenol am ei gwaith yng nghartref yr henoed Hafan Deg a hefyd o'r amser y bu'n brif gogyddes yn y coleg yn Llambled. Ym mis Tachwedd byddwn yn croesawu Luned Brynie atom i greu addurniadau Nadolig. Ym mis Rhagfyr fe fyddwn yn ffodus iawn

i gael croesawu Meinir Green atom i greu torchau Nadolig. Croeso i aelodau newydd i ymuno â ni ar nos Fercher cyntaf pob mis.

Ffair Nadolig

Byddwn yn cynnal Ffair Nadolig eleni ar ddydd Sul y 1af o Ragfyr. Dewch i wneud eich siopa Nadolig. Ceir lluniaeth ysgafn o gawl cartref, caccnau, mins pei, te a choffi.

Cwrdd Croesawu'r Plant

Cynhaliwyd cwrdd croesawu plant yn ystod mis Hydref lle daeth nifer

o blant bach y capel at ei gilydd. Diolch i'r Parch Densil Morgan am gynnal gwasanaeth hyfryd ac i bawb a wnaeth baratoi'r te blasus i ddilyn. Dyma lun o'r plant a'r Parchedig Densil Morgan.



Llanfair Clydogau

Marathon Caerdydd

Llongyfarchiadau i Ffion Quan, Sŵn yr Afon, am redeg hanner marathon Caerdydd yn ddiweddar gan orffen mewn amser da iawn sef un awr a pumdeg chwech o funudau. Dal ati Ffion.

Diolch i Bill Fillery.

Daeth plwyfolion Eglwys Cellan ac Eglwys Llanfair ynghyd i ddiolch i Bill Fillery am ei wasanaeth dros y saith mlynedd ddiwethaf. Cynhaliwyd gwasanaeth boreol yn Eglwys Cellan o dan ofal Bill gydag Elizabeth yn cefnogi. Daeth nifer dda o aelodau a ffrindiau ynghyd i ddangos eu parch tuag ato. Ar ôl y gwasanaeth, aeth y gynulleidfa ymlaen i Neuadd Llanfair lle roedd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi.

Ar ran Llanfair, talodd Alan Leech deyrnged a chyflwynodd iddo anrheg a blodau i Elizabeth ei wraig. Yn yr un modd, siaradodd John Metcalf ar ran aelodau Eglwys Cellan. Bydd y ddwy eglwys yn gweld ei eisiau yn fawr iawn.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Iris Quan, Blaencwm, sydd ar hyn o bryd yn ysbyty Bronglais. Edrychwn ymlaen i'w gweld yn well ac adref yn fuan.

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth mam Paul Miller, Cysgod y Coed, Heol Llanfair ag yntau wedi colli ei dad ddim ond rai misoedd yn ôl. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda

Paul a'r teulu i gyd.

Sefydliad y Merched

Cawsom noson agored ar y 26ain o Fedi pan ddaeth llawer ynghyd i wrando ar P. C.S.O. Caryl Griffiths o Dîm Trosedd Gwledig Heddlu Dyfed Powys. Daeth i siarad am ffyrdd o ddiogelu ein meddiannau rhag lladron, yn enwedig ar ffermydd lleol lle mae llawer o beiriannau gwerthfawr. Roedd ganddi lawer o syniadau defnyddiol. I orffen, roedd lluniaeth hyfryd i bawb wedi ei baratoi gan y merched.

Ar Hydref 24ain aeth grŵp o tua pymtheg o Lanfair yn groes i fferm Denmark yn Llwynygroes i greu addurniadau Nadolig drwy wehyddu coed helyg. Creodd y rhan fwyaf rai mewn siap seren gyda goleuadau

arnynt gan edrych yn brydferth iawn. Diolch i Justine a Mara. Yna daeth pawb yn ôl i'r neuadd yn Llanfair i gael lluniaeth blasus wedi ei baratoi gan Paula, Pat ac Elaine.

Beth sy' nesa?

Rhagfyr 9fed - Clwb 'Golden Broth' yn cynnal eu cinio Nadolig.

Rhagfyr 14eg - parti Nadolig y plant.

Rhagfyr 15fed - Noson y Dewin. Pob un i ddod â diod a bwyd ei hun. Mynediad drwy docyn yn costio £5 a phlant o dan 12 yn costio £1. Bydd te a choffi ar gael.

Rhagfyr 19eg - Carolau, Cawl a Chân

Sefydliad y Merched Coedmor



Hanes Sefydliad y Merched Coedmor 1949-2019 gan Avril Williams (aelod gwreiddiol)

Sefydlwyd y gangen gyntaf erioed o Sefydliad y Merched yn Ontario, Canada yn y flwyddyn 1897, a'r un gyntaf yng Nghymru yn Llanfair P.G. ar Ynys Môn ym 1915. Yn ystod y blynyddoedd yn dilyn, sefydlwyd llawer o'r canghennau yma yn ein sir ni, sef Sir Gaerfyrddin, a sefydlwyd Ffederasiwn Sirol yn ogystal. Yn y flwyddyn 1949, derbyniodd Mr B. J. Jones – prifathro Ysgol Ram ar y pryd, lythyr o Swyddfa Sirol Sefydliad y Merched yng Nghaerfyrddin yn gofyn a oedd yn meddwl y byddai yna ddiddordeb ymysg gwragedd y pentref i sefydlu cangen o'r mudiad yma. Galwodd yntau gyfarfod 'rhagarweiniol' ar 13eg, Hydref 1949 a daeth 22 o wragedd ynghyd i drafod y mater. Hefyd yn bresennol oedd dau Swyddog Sirol y Sefydliad. Cymerodd Mrs Lindsay o Nantgaredig y gadair a bu Mrs A. Mansel-Lewis o Benbre yn olrhain hanes y Mudiad.

Cynigiodd Mrs M. M. Jones, Brynteg, ac eiliodd Mrs M. L. Jones, Bryn Siop y dylid ffurfio cangen yma, gyda'r swyddogion arferol sef llywydd, dau is-lywydd a phwyllgor o 10 aelod. Enwyd y gangen yn Sefydliad y Merched, Coedmor, neu Coedmor W.I. a hynny am fod yr ardal o fewn 'hamlet' Coedmor o Blwyf Pencarreg. Penderfynwyd mai'r man cyfarfod fyddai'r ysgol, a hynny ar y pedwerydd Dydd Llun o bob mis, ac y dylid croesawu merched 15 oed os byddent wedi gorffen yn yr ysgol, i fod yn aelodau

Enwebwyd swyddogion ar gyfer pleidleisio yn y cyfarfod nesaf ar 24ain o Hydref. Mrs Lindsay oedd yn y gadair yn y cyfarfod yma eto, tra bu Mrs Beckinsale o Gastell Newydd Emlyn yn sôn am yr ochr ariannol o gynnal cangen o'r mudiad. Yr oedd yna 42 o ferched yn bresennol, a thalu eu tâl aelodaeth o 3s 6c (17½c). Eleni, mae'r tâl aelodaeth yn £43! Yn dilyn pleidlais am swyddogion - Mrs M. M. Jones oedd y Llywydd, Mrs M. L. Jones a Mrs G. Davies Lleine yn is-lywyddion, Mrs L. Jones, Llysonnen yn ysgrifennydd a Mrs G. Evans, Plasnewydd yn drysorydd er iddi hi ymddiswyddo yn y cyfarfod canlynol. Felly, apwyntiwyd Miss R. M. Evans, athrawes yn yr ysgol i fod yn drysorydd yn ei lle. Fel rhan

o'n dyletswyddau cynnar, roedd disgwyl i ni gynnal hanner awr o adloniant ar derfyn pob cyfarfod misol a chyfarfod o'r pwyllgor hefyd yn fisol. Rhaid dweud na pharodd yr un o'r dyletswyddau yma yn hir iawn yn W.I. Coedmor! Roedd yn rhaid i ni sicrhau bod gennym siaradwr neu arddangosiad erbyn ein cyfarfodydd, ac yn ffodus iawn, un o'r aelodau sef Miss Bessie Davies roddodd yr arddangosiad coginio yn y cyfarfod cyntaf.

Nid yw cangen o'r Sefydliad yn cael cadw holl arian tâl aelodaeth o fewn y gangen honno. Yn hytrach, rhaid ei rannu â'r Sir a'r Ffederasiwn Cenedlaethol. Rhaid felly oedd cynnal cyngherddau, gyrfaeod chwist, dawnsfeydd, sioeau ffasiwn a llawer mwy i godi arian i redeg y gangen, Ers blynyddoedd lawer bellach, ein haelodau ni sy'n gyfrifol am baratoi lluniaeth ar gyfer diwrnodau cymdeithasol a gynhelir yn y pentref, sef diwrnod y Carnifal a Diwrnod Ffair Ram. Codwyd llawer o arian ar hyd y blynyddoedd hefyd tuag at wahanol elusennau. Bob blwyddyn adeg y Nadolig, awn o amgylch y pentref i ganu carolau, a chasglu at achosion da. Mae un flwyddyn yn sefyll yn y cof yn fwy nag unrhyw un arall. Un tro, tra'r oeddem wrthi'n canu ar stad Heol Hathren, gydag uchelseinydd ar do car gŵr un o'r aelodau, dyma'r heddlu yn dod i roi taw arnom ni, oherwydd ein bod yn creu aflonyddwch! Roedd yna un unigolyn wedi gweld yn dda i'n 'riportio'. A hynny yn nhymor Ewyllys Da!

Yn ystod y flwyddyn 1955/56, tynnodd y gangen sylw'r Cyngor Plwyf lleol i'r ffaith bod angen goleuadau stryd yn y pentref, Galwyd cyfarfod cyhoeddus, ac yn dilyn llawer o ymgynghori a chynllunio, goleuwyd yr ardal erbyn diwedd y flwyddyn. Yn niwedd 1995, penderfynwyd newid ein man cyfarfod i'r Ganolfan Gymuned Newydd yn y pentref, ac yn 1961, newidiwyd noson y cyfarfodydd i'r Nos Lun cyntaf a bob mis. Mae'r trefniadau yma yn dal yr un fath heddiw. Mae pob cangen o'r mudiad yn perthyn i grŵp sy'n cynnwys rhyw 6-8 cangen. Byddant yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn, a phob cangen yn ei thro yn estyn y gwahoddiad, ac yn cynnal y noson. Mae Coedmor yn perthyn i Grŵp Teifi, ac mae amryw

o'r aelodau wedi dal swyddi llywydd a chynullydd (convener) o fewn y grŵp hwnnw.

Dathlwyd pob pen-blwydd arbennig ar hyd y blynyddoedd, a'r diweddara'r o'r rhain oedd ar y 7fed o Hydref eleni pan wnaethom ddathlu ein 70ain, gyda chinio mawreddog yng Ngwesty'r Cawdor, Llandeilo, a hynny yng nghwmni Cadeirydd Ffederasiwn Cymru, Mair Stephens, ynghyd â thair o swyddogion y sir, sef Ann Halborg, Cadeirydd; Pat Thomas, Ysgrifennydd a Marylyn Haines Evans Ymgynghorydd grŵp Teifi. Ein gŵr gwadd ar y noson oedd Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu Dyfed Powys, gŵr a chanddo gysylltiadau teuluol yn yr ardal, ac yn adnabyddus i rai o'r aelodau. Cafwyd ganddo araith ddiddorol dros ben ynglŷn â'i waith, ac mae'n ymddangos ei fod yn berson prysur iawn.

Ymhyfrydwn yn y ffaith ein bod yn cynnal ein cyfarfodydd i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg, a chedwir pob cofnod yn Gymraeg. Dwy ffaith ddiddorol arall yw bod Mair Stephens, Cadeirydd Cymru yn hanu o Sir Gâr, a bod Is-lywydd Cenedlaethol y Mudiad a chyn Cadeirydd Cymru yn hanu o Geredigion, sef Ann Jones. Yr ydym wedi cymryd rhan ac wedi ennill nifer fawr o gystadlaethau yn lleol ac yn sirol. Yn ddiweddar enillodd tair o'n haelodau'r Cwis Llyfrau Gymraeg yn y Sir. Llongyfarchiadau gwresog iddynt, ac i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw fodd ar hyd yr amser. Braff yw nodi hefyd bod dwy o'n haelodau yn gwasanaethu ar Bwyllgorau Sir ar hyn o bryd. Rhaid yw dweud wrth derfynu fy mod wedi mwynhau fy aelodaeth o Sefydliad y Merched Coedmor ers ei ffurfio yn 1949, ac ar achlysur dathlu ei 70ain pen blwydd, dymunaf iddo flynyddoedd lawer eto i addysgu ac i ddiddanu gwragedd, fel y gwnaeth yn y gorffennol.

Cyfarfod mis Medi

Croesawodd y llywydd Gwen bawb yn ôl i gyfarfod mis Medi ar nos Lun yr ail, gan obeithio bod pawb wedi cael gwyliau da. Darllenwyd y llythyr misol. Ymlaen wedyn i wneud trefniadau ar gyfer cinio dathlu 70 mlynedd ym mis Hydref. Aeth Gwen ymlaen i groesawu gwsteion y noson sef aelodau o 'Beiciau Gwaed Cymru' - Graham, Sandra, Ken, Allan a Warren. Graham fu'n sôn am y cwmni

a dywedodd mai gwaith gwirfoddol ydoedd a'u bod yn gweithio ar benwythnosau a Gŵyl y Banc, pe bai'r galw'n dod. Mae naw grŵp yng Nghymru a 350 o aelodau. Cafwyd y Beic cyntaf yng Nghwm Taf, yna yng Nghaerdydd, Abertawe, Caerfyrddin, Aberystwyth a Hwlfordd. Maent yn cario gwaed ac unrhyw nwyddau i wneud â meddyginiaeth ond dim nwyddau na phersonau – mae'n wasanaeth arbennig i blant newydd eu geni, os oes unrhyw broblem. Mae beic yn costio tua £9,500 ac fe ddaeth yr un 1af i Aberystwyth yn 2008, a chaiff ei newid bob 30,000 o filltiroedd. Diolchwyd iddynt gan Elam am noson ddiddorol iawn dros ben. Enillwyd y raffl gan Mary.

Cyfarfod mis Hydref

Croesawodd y llywydd, Elma pawb i westy'r Cawdor, Llandeilo ar nos Lun, Hydref 7fed i ginio dathlu Pen-blwydd S.Y. Merched Coedmor yn 70 mlwydd oed, ac aeth ymlaen wedyn i groesawu'r gwsteion sef Ann Holborg, Cadeirydd Sir Gâr, Pat Thomas, Ysgrifennydd, Mair Stephens Cadeirydd Cymru, o S.Y.M a Marylyn Haines-Evans Ymgynghorydd. Hefyd croesawodd ein gŵr gwadd Y Bon. Dafydd Llewelyn. Offirmwyd gras gan Gwyneth ein hysgrifennydd. Ar ôl y cinio torrwyd cacen y dathlu gan Avril Williams, un o'r aelodau gwreiddiol a'r hynaf. Cynigiwyd llwnc destun gan Mair Stephens yn llongyfarch y gangen a hefyd diolch am y gefnogaeth o Coedmor ar hyd y blynyddoedd. Aeth Gwen ymlaen wedyn i groesawu'r gŵr gwadd sef Dafydd Llewelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed Powys. Dechreuodd drwy sôn am ei gefndir a'i deulu. Erbyn hyn, mae'n byw yn Llandysul gyda'i wraig a phump o blant. Aeth ymlaen i sôn am ei swydd gyda'r heddlu a'r ffaith iddo ddechrau ei yrfa nôl yn 2001. Cawsom noson ddiddorol iawn ganddo wrth iddo sôn am ei ddytswyddau yn ei waith o ddydd i ddydd. Diolchwyd iddo gan Mary yr is-lywydd. Diolchwyd hefyd i Liz Jones, am wneud y gacen, i'r gwesty, ac i Gwyneth am wneud y trefniadau. Diolchodd Marylyn ar ran y gwestion a hefyd Ann Holborg ar ran S.Y.M Sir Gâr.



Grŵp Dawnsio Disgo CFFI Cwmann yn dod yn ail yn yr Eisteddfod Sir



Meim CFFI Cwmann yn yr Eisteddfod Sir



Lowri ac Elan yn canu deuawd

C.Ff.I. Cwmann

Mae wedi bod yn fis prysur iawn i'r clwb wrth iddynt baratoi a pherfformio yn yr Eisteddfod Sir. Braf oedd gweld cymaint o'r aelodau hŷn ac ifanc yn cymryd rhan mewn cystadlaethau unigol, dawnsio disgo a meim. Ar ddiwedd dwy noson a diwrnod o gystadlu brwd a mwynhad pur rhaid llongyfarch pawb ar eu perfformiadau graenus a diolch i'r arweinyddion a'r aelodau a fu'n paratoi, hyfforddi a chefnogi. Llongyfarchiadau i'r canlynol:- Elan Jones cyntaf ar yr Unawd 16 ac iau, Alpha Evans ail yng nghystadlaethau y Gadair, Alpha Evans ail yn yr unawd offerynnol a'r Grŵp Dawnsio disgo ail. Pob hwyl i Elan yn Eisteddfod Cymru ddiwedd y mis.

Cynhaliwyd Cymanfa Fodern hynod lwyddiannus yng nghapel Brondeifi i ddathlu pen-blwydd y clwb yn chwe deg oed a diolch i'r Gweinidog a'r aelodau am gael defnyddio'r capel. Diolch yn fawr iawn i Rhiannon Lewis am arwain mor fedrus ac i'r Parchedig Alun Wyn, Richard Marks a Hywel Roderick (Y Band) am y gerddoriaeth gyfoes. Diolch i'r arweinyddion a'r aelodau a fu'n trefnu ac yn cymryd at y rhannau arweiniol a'r eitemau ac i gyn aelodau'r clwb am yr eitem hyfryd. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Bydd dathliadau'r chwedeg yn parhau yn ystod y flwyddyn gyda Dathliadau Gŵyl Ddewi/Sioe Ffasiynau ar Chwefror 29 a chinio'r dathlu ar Fehefin 13 ym mhrifysgol

Llambed. Os ydych yn dymuno archebu dillad a mwg i gofio'r chwedeg yna fe fydd nwyddau ar werth yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd cynlluniau ar waith i greu llyfr o hanes y clwb ac os hoffech chi gyfrannu hanes eich cyfnod chi yn y clwb cysylltwch â'r swyddogion cyn gynted â phosibl. Mae modd tanysgrifio i'r llyfr am £20. Bydd tanysgrifiwr yn derbyn copi o'r llyfr yn ogystal â chael ei enw wedi argraffu yn y llyfr.



Diwrnod y Llynges Fasnach

Ar y 3ydd o Fedi 1939 cyhoeddodd Neville Chamberlain, Prif Weinidog Gwledydd Prydain ar y pryd, mewn darllediad, bod y wlad yma mewn rhyfel yn erbyn Hitler a'i gynghreiriaid. Dyma oedd dechrau'r Ail Ryfel Byd. Rhai o glwyfedigion cyntaf y rhyfel yma oedd aelodau o'r Llynges Fasnach, Roedd yn bwysig iawn i gludo bwyd a nwyddau i mewn i'r wlad, ond nid oedd modd dianc rhag gweithrediadau milain llongau tanddwr y gelyn yn saethu torpidoedd atynt a'u lladd. Yn anffodus dyna fu hanes llawer o fechgyn lleol o ardaloedd fel Cwmann, Pencarreg, Llanybydder, Llanbed a Phumsaint. Gwelir enw'r morwr Evan Henry Thomas, 4 Cwmann ar y Gogolofn yng Nghwmann. Bu ef farw yn Ysbyty Sully o ganlyniad i salwch a ddioddefodd wrth hwylio'r moroedd yn ystod y rhyfel. Ar y 3ydd o fis Medi eleni, diwrnod a adnabyddir hefyd yn "Diwrnod y Llynges Fasnach", daeth rhai o aelodau'r Cyngor Bro ac eraill ynghyd ger y Gogolofn yng Nghwmann i gofio am y rhai a gollwyd ac a glwyfwyd, er nad oeddent yn perthyn i'r



Alun Williams, Llywydd cyngerdd a gynhaliwyd yn Neuadd Sant Iago Cwmann yn cyflwyno sic o £750 i Twynog Davies ac Elaine Davies ar ran Apêl Ghana Cymorth Cristnogol. Yn y llun mae Côr Cwmann - un o artistiaid y noson.

Lluoedd Arfog. Yn dilyn gwasanaeth byr, o dan Faner y Llynges Fasnach, darllenodd y Cyng Stan Evans ei gyfieithiad Cymraeg ef o Weddi'r Morwr i gloi'r gweithgareddau.

Enillwyr Misol Clwb 225 Pwyllgor Pentref Cwmann

Hydref 2019 – 1. Gwyn Lewis, 18, Heol-Hathren, Cwmann, 9. 2. Joan Davies, 23, Cwrt-Deri, Cwmann, 90. 3. Seren Ling, Cysgod-y-Coed, Cwmann, 104. 4. Glyndwr Jones, Y Glyn, Cwmann, 204. 5. Aneurin Davies, Tŷ Capel, Caersalem, Parc-y-Rhos, Cwmann, 188. 6. Neville ac Eleanor Davies, Pleasant View, Heol Llanfair, Llambed, 128. 7. Wendy Mason, 35, Heol Hathren, Cwmann, 119.

Côr Meibion Cwmann a'r Cylch

Aeth y Côr i ganu mewn cyngerdd yn Aberporth ym mis Awst. Swynwyd y gynulleidfa gan leisau Joy Cornock a Kees Huysmans a'r Côr dan arweiniad Elonwy Davies ac Elonwy Pugh Huysmans. Bu'r Côr hefyd yn diddanu'r dyrfa mewn Ffair Haf yng Nghartref Allt y Mynydd, Llanybydder. Cafwyd pnawn braf fel y gwelir yn y llun isod.



Aeth nifer o aelodau'r Côr i Gaerdydd canol Hydref. Cafodd gwesteion Gwesty'r Clayton wledd o ganu ganddynt a mwynhau sawl unawd gan Dai. Cewch gyfle i glywed y Côr yn Ffair Nadolig Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Sadwrn 23 Tachwedd) ac yn y Noson Siopa Hwyr (Iau 5 Rhagfyr). Byddant hefyd yn canu mewn nifer o gartrefi henoed cyn y Nadolig. Mae'r Côr bob amser yn falch i groesawu aelodau newydd. Dewch felly yn denoriaid a baswyr i'n hymarferion yn Festri Capel Brondeifi, Llanbed ar nosweithiau Mercher am 8 o'r gloch. Cewch wybodaeth bellach ar ein gwefan: <http://www.corcwmann.btck.co.uk/>

Rhys Bebb Jones
Swyddog y Wasg

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Sara Elan Jones, Araul, Heol Caerfyrddin ar gael ei dewis i fynd allan i Batagonia gyda'r Urdd mis Hydref nesaf. Pob dymuniad da i ti.

Cronfa Genedlaethol William Salesbury

Meredydd Evans yn 100: Cymanfaoedd Gwerin (Cymanafoedd Codi'r To) i'w cynnal ledled Cymru i ddathlu.

Eleni fe fyddai'r ymgyrchydd a'r canwr gwerin Meredydd Evans yn gant oed. I ddathlu'r ganrif mae Ymddiriedolaeth William Salesbury yn trefnu cyfres o gymanfaoedd Codi'r To - cymanfaoedd gwerin anffurfiol - ledled Cymru. Pam? Pan oedd Merêd ac eraill yn codi arian i sefydlu a chynnal y Dinesydd, papur bro Caerdydd, yng nghanol y 1970au fe drefnodd gyfres o gymanfaoedd codi'r to i godi arian at yr achos. Felly pa ffordd well o ddathlu'r 100 na thrwy atgyfodi'r syniad hwnnw? Yn dilyn sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fe sefydlodd Merêd Ymddiriedolaeth William Salesbury i gynnal ysgoloriaethau i gefnogi myfyrwyr sy'n dilyn eu cyrsiau gradd trwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r Coleg. Mae'r gronfa'n cynnig cefnogaeth hael i nifer o fyfyrwyr yn flynyddol ac mae angen ymdrech'u'n gyson i sicrhau bod arian ar gael yn y gronfa. Yn gwbl nodweddiadol ohono, fe weithiodd Merêd yn ddifflino i godi arian i'r gronfa hon i gefnogi cenedlaeth newydd o bobl

ifanc. Felly dyma dynnu'r pethau hyn ynghyd - dathlu pen-blwydd Merêd trwy ddathlu ei hoffter o ganu gwerin a thrwy hynny godi arian at yr elusen oedd agosaf at ei galon. Bydd rhai'n cofio'r cymanfaoedd gwreiddiol. Cynhaliwyd y cyntaf yn Neuadd y Cory, Caerdydd, ar 23 Tachwedd 1973. Mae rhai yn cofio bod yno. Mae rhyw gof o Ryan Davies ar ben bwrdd yn codi canu. Efallai bod rhaglenni yn dal mewn cypyrddau? Bydd nosweithiau yn cael eu cynnal ym Mhwlheli, Bala, Tanygrisiau, Dinbych, Llanegryn, Caernarfon, Aberystwyth, Llanerfyl, Crymch, Pontypridd a Chasnewydd. Cynhelir y cynta ym Mhwlheli ar 7 Tachwedd dan arweiniad Gwenan Gibbard a'r olaf yn Llanegryn, man geni Merêd, ar ddiwrnod ei ben-blwydd yn 100, sef 9 Rhagfyr 2019 dan arweiniad Mair Tomos Ifans ac eraill.

Cysylltiadau:
Rocet Arwel Jones, 07527198861, Trysorydd yr Ymddiriedolaeth, a threfnydd cymanfa Aberystwyth.
Dafydd Iwan, 01286 676 004 un o'r ymddiriedolwyr a threfnydd cymanfa Caernarfon,
Gwenllian Lansdown Davies,

Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, 01970 639639
Gwefan: <http://cronfasalesbury.org/>

Nosweithiau i gofio Meredydd Evans

Pwllheli - Ffestri Capel y Drindod 7:00, nos Wener, 7 Tachwedd gyda Gwenan Gibbard.

Ar y cyd â Merched y Wawr, Pwllheli.

Llanerfyl - Neuadd Llanerfyl 7:30, 15 Tachwedd, 2019. Ar y cyd a Gŵyl Cerdd Dant Bro Nansi 2020. Cyswllt Arfon Gwilym a Sioned Oheba

Caernarfon - Theatr Seilo, Caernarfon 7:30, nos Wener, 22 Tachwedd, 2019. Arweinydd: Sian Wheway

Crymch - Theatr y Gromlech, Crymch 7:30, nos Fercher 27 Tachwedd, 2019. Arweinydd: Eleri Roberts. Cyfeiliant: Cromlech

Dinbych - Theatr Twm o'r Nant, 7:30, nos Fercher, 27 Tachwedd 2019. Arweinydd: Leah Owen.

Gyda Gwilym Bowen Rhys Tanygrisiau - Capel Carmel, Tanygrisiau 7:30 nos Iau, 28 Tachwedd, 2019

Pontypridd - Clwb y Bont, Pontypridd, 7:30 nos Wener, 29 Tachwedd, 2019. Arweinydd: Menna Thomas. Gyda Huw M.

Aberystwyth - Theatr Arad Goch, Aberystwyth, 7:30 nos Wener, 29 Tachwedd, 2019. Gyda Bethan Bryn ac eraill

Llanegryn - Neuadd Llanegryn 7:30, nos Lun, 9 Rhagfyr, 2019.

Gyda Mair Tomos Ifans, Rhiain Bebb a doniau eraill o'r Dyffryn

Bala - Theatr Derek Williams, 7:30, nos Sadwrn, Rhagfyr 7fed. Arweinydd: Arfon Williams

Cyfeiliant: Cas Meurig a'i band. Gyda Sian James ac eraill!

Casnewydd - Capel Mynydd Seion, Casnewydd. Manylion i ddilyn.



Eisteddfod Genedlaethol

Mis yn unig sydd i fynd tan 1 Rhagfyr, sef y dyddiad pan fo'n rhaid i geisiadau ar gyfer y Fedal Ryddiaith gael eu cyflwyno er mwyn eu hanfon at y beirniaid. Beirniaid cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith 2020 yw enillydd Medal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy, eleni, Rhiannon Ifans, Elwyn Jones ac Elfyn Pritchard, a thema'r gyfrol o ryddiaith greadigol heb fod dros 40,000 o eiriau yw Clymau. Cyflwynir y Fedal a'r wobwr ariannol o £750 gan Gymdeithas Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Meddai Trefnydd yr Eisteddfod, Elen Elis, "Mae'r Fedal Ryddiaith yn un o gystadlaethau pwysicaf yr Eisteddfod, ac wedi cyfrannu'n sylweddol at gynnyrch llenyddol Cymru dros y blynyddoedd. Gobeithio bydd hyn yn parhau ymhell i'r dyfodol, ac y byddwn yn llwyddo i ddenu nifer fawr o

gyfrolau o safon uchel unwaith eto eleni.

Nid ar chwarae bach mae rhywun yn creu cyfrol o lenyddiaeth arobryn heb fod yn fwy na 40,000 o eiriau, ac rydym yn gwerthfawrogi pob un o'r ceisiadau sy'n dod i law. Os ydych chi'n bwriadu gwneud cais eleni, cofiwch fod y dyddiad cau yn prysur agosáu ac nad oes modd derbyn ceisiadau hwyr ar gyfer y gystadleuaeth. Felly, ymlaen i orffen y gwaith a'i anfon atom cyn iddi fynd yn ben set! Pob hwyl i bawb sy'n bwriadu cystadlu eleni, a gobeithio y gwelwn ni deilyngdod ar lwyfan y Pafiliwn yng Ngheredigion y flynyddyn nesaf."

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn Nhregaron o 1-8 Awst. Am fwy o wybodaeth ewch ar-lein, www.eisteddfod.cymru.

Talent Leol

Cyfraniad Euros Lewis i Gyngor Rheoleiddio newydd sbon

Mae Euros Lewis, sydd wedi ymgartrefu yng Nghribyn ers blynyddoedd bellach, wedi chwarae rhan bwysig yn sefydlu corff cenedlaethol newydd sbon. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf erioed Bwrdd y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol ar ddydd Mawrth 22 Hydref ac roedd Euros Lewis yn rhan o'r Bwrdd hwnnw ac yn bresennol yn y cyfarfod. Etholwyd Euros i'r rôl ym mis Awst eleni. Ar hyn o bryd mae rheoleiddio cyfathrebu yng Nghymru yn cael ei wneud gan gorff yn Lloegr. Ond bydd y Cyngor newydd hwn yn edrych ar y rheoliadau sydd eu hangen yng Nghymru er mwyn gwasanaethu pobol Cymru yn well. Yn ogystal ag edrych ar reoliadau yn ymwneud â radio a theledu lleol a chenedlaethol bydd y Cyngor Cyfathrebu hefyd yn edrych ar gynnwys ar y we, y wasg brintiedig a newyddion ar lein a hefyd mynediad i'r we.

Mae Euros Lewis wedi bod yn Gymrawd Sgriptio a Pherfformio ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod, Dewi Sant, mae e wedi bod yn rheolwr llwyfan, yn gynhyrchydd ac yn gyfarwyddwr ynghyd ag yn awdur. Ar hyn o bryd ef yw arweinydd prosiect Radio Beca (Darlledu Cymdeithasol), fe yw cynhyrchydd y gyfres gomedi Hyd y Pwrs (darlledu ar S4C Ionawr,



2020) ac ynghanol ysgrifennu llyfr: Amgylchedd y Gymraeg. Mae Euros Lewis hefyd yn gerddor. Mae Euros yn dod yn wreiddiol o Dreherbert yng Nghwm Rhondda ac yno mae ei wreiddiau ond mi dreuliodd ei ddyddiau ysgol ym mhob rhan o Gymru - o Frycheiniog, i Sir Benfro i Sir Fôn. Mynychodd y Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd cyn dewis i setlo yng Ngheredigion. Aelodau eraill o Fwrdd y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol ydy Angharad Mair, Nia Ceidiog, Eifion Glyn, Phil Stead, Gary Pritchard, Rhisiart Arwel, Owain Gwilym, Alun Jones Williams a Marc Webber. Noddwyd y cyfarfod cyntaf hwn gan Cware ac Olew Trefign a chwmni cyfrifwyr siartredig Llyr James. Bydd y Bwrdd yn ailymgynnull ar ddechrau 2020 pan fydd yr aelodau yn dod â chynigion i'r bwrdd parthed rheoliadau addas i Gymru yn y maes.

Cyfarchion Nadolig



Ydych chi wedi penderfynu peidio â danfon cardiau Nadolig eleni? Stampiau'n rhy ddrud? Teimlo fel rhoi cyfraniad tuag at achos da yn lle hynny?

Beth am roi cyfarchion Nadolig i'ch ffrindiau a'ch teulu mewn blwch bach gydag addurniadau yn rhifyn Rhagfyr Clonc. Dim ond cyfraniad (isafswm o £10 os gwelwch yn dda) am flwch o hyd at 100 o lythrennau.



Cwmsychbant

Pasio prawf gyrru

Pob dymuniad da i Owain Jones, Blaenhirbant Uchaf ar basio ei brawf gyrru o fewn mis ar ôl dathlu ei ben-blwydd yn 17oed. Pob hwyl gyda'r gyrru.

Diwrnod Maes

Bu'n ddiwrnod llwyddiannus i aelodau C.Ff.I. Llanwenog a Phontsian yn y diwrnod Maes ar Fferm Trawsgoed ger Abermagwr, Aberystwyth a gynhaliwyd yn ddiweddar. Daeth Lois Jones, Blaenhirbant Uchaf yn 2il am baratoi ffowlyn gyda'i brawd Owain yn rhan o'r tîm a enillodd y barnu stoc 1af dan 18oed gydag Elin Davies, Tynrug Isaf ac Osian Davies, Fronheulog. Bu Osian ac Owain hefyd yn 3ydd yn y sialens ATV.

Roedd Meinir Caerwenog a Sioned Llys y wawr yn rhan o dîm Ar y Newyddion Llanwenog a ddaeth yn 3ydd. Bu Beca Jenkins yn aelod o dîm barnu stoc hŷn C.Ff.I. Pontsian a ddaeth yn 4ydd gyda'i chwaer Lisa yn cael y 3ydd gwobr fel rhan o dîm Fferm Ffactor Clwb Pontsian ac Endaf Griffiths, Penlanfawr yn rhan o dîm Ar y Newyddion Pontsian a ddaeth yn 2il. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.

Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm ar nos Iau, Hydref 17eg gyda Ffred Ffransis ac aelodau o gwmni CODA NI o Bencader. Cafodd y gynulleidfa weld fideo o waith y grŵp allan yng ngogledd Burkina Faso.

Roedd nifer yn y gynulleidfa wedi cael agoriad llygad i weld sut le oedd allan yno. Llywyddwyd y noson gan y Parch Wyn Thomas ac ef hefyd a dalodd y diolchiadau am gwrdd tra gwahanol.

Roedd y Capel wedi ei harddu gan rieni'r Ysgol Sul ac roedd bron yn llawn gydag ystod eang o oedran - o'r 80au hwyr i 5oed. Eleri Jenkins, Alltyblaca oedd wrth yr organ.



Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Hywel a Wenella Evans a'r teulu, Penffordd ar golli mam, mam yng nghyfraith, mam-gu a hen fam-gu annwyl iawn sef Dorothy Evans, Gelli, Llanllwni.

Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol Sul

Roedd hi'n fore Sul tyngedfennol ar y Cae Rygbi allan yn Siapan ar ddiwedd mis Hydref ac o ganlyniad bu'n rhaid gohirio'r Cwrdd eleni tan tua 11:00 y bore.

Daeth nifer fawr ynghyd wedyn i glywed y plant wrthi yn diolch. Diolch i'r plant am eu gwaith graenus a hefyd i Nia Davies am roi arweiniad iddynt. Bu Wyn Thomas yn eu cyfarch ac roedd Carys Griffiths-Jones, Fronddu wrth yr organ.

Bore Coffi

Er ei bod yn fore garw a gwlyb ofnadwy, fe ddaeth tyrfa ddigon da i'r bore Coffi yn Ffestri Capel y Cwm. Yng nghanol y stondinau amrywiol, roedd yno stondin gacennau arbennig iawn. Tynnwyd y Raffl fawr a dyma restr o'r enillwyr :-

1. Elis, Bryneirin, Cwmcou.
2. Wil a Magi, Tawel.
3. Linda Bashford, Craigle.
4. Catrin Thomas, Maesymeillion.
5. Cerdin Griffiths, Aberteifi.

Diolch i bawb a gefnogodd y Bore Coffi yma gan sicrhau arian sylweddol i gronfa ariannol y Capel.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Maria a Dorian a'r teulu, Maesteg ar golli chwaer a modryb yn Llanybydder yn ddiweddar.

Gwellhad buan

Gobeithio bod John Beaufort Williams, Brynamlwg yn well yn dilyn ei anhwylder diweddar.

Croeso

Croesawn berchnogion newydd i Lanwnnen House [yr Hen Siop / Swyddfa'r Post] a dymunwn yn dda i Dai a Sally wrth iddynt hwy symud i fyw ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr a diolch i chi am bob peth a wnaethoch i bentref Llanwnnen yn ystod y cyfnod y buoch yn byw yn ein plith.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda theulu'r diweddar Hyw Davies, Or-nant a fu farw yng Nghartref Alltymynydd lle y treuliodd misoedd olaf ei fywyd. Roedd Hyw yn weithgar bob amser ac yn cadw bob man yn daclus iawn. Bu'r angladd yn gyhoeddus yn Eglwys Llanwenog - lle a oedd yn agos iawn at ei galon ac yno y daearwyd ei weddillion hefyd.

Pwyllgor Lles – Cinio i'r Henoed

Mae'r Pwyllgor Lles yn trefnu Cinio Nadolig i'r henoed sy'n byw yn nhalgylch pentref Llanwnnen. Cynhelir y cinio ddau gwrw ddydd Mercher, 20 Tachwedd, 2019 am 12.30 o'r gloch yng Nghegin Gareth a'r pris yw £18.00 y pen. Bydd y Pwyllgor Lles yn cyfrannu £10 tuag at ginio pob un o'r trigolion sy'n 70 oed neu'n hŷn. Mae croeso i eraill nad ydynt wedi cyrraedd oed yr addewid ddod i'r cinio, os bydd y niferoedd yn caniatáu. Enwau, dewisiadau ac arian i Erika Davies, Felinban 01570 434548 erbyn 8 Tachwedd, plis.

Sefydliad y Merched

Nos Lun, 2 Medi, cyfarfu aelodau Sefydliad y Merched Llanwnnen yn eu cartref newydd yn Ysgol Dyffryn Cledlyn a braf oedd cael croesawu un sydd â'i gwreiddiau yn ddwfn yn y pentref i'n plith, sef Elin Jones AC, Llywydd y Cynulliad. Treuliwyd noson ddifyr yn ei chwmni wrth iddi sôn am ei diddordeb cynnar ym maes gwleidyddiaeth, y dylanwadau arni a'i thaith fel gwleidydd, sydd wedi cyrraedd uchafbwynt yn Llywydd y Cynulliad. Cynhaliwyd y cyfarfod misol hefyd gyda Carol Thomas yn llywyddu a thrafodwyd y materion busnes angenrheidiol. Cyn diwedd y noson cynhaliwyd y gystadleuaeth fisol, sef cambren ddillad a'i beirniadu gan Elin. Enillwyd y gystadleuaeth gan Ceinwen Roach, gyda Gwen Davies yn ail a Mary Davies yn drydydd. Enillwyd raffl y

noson gan Avril Jones, darparwyd y te gan Avril a Shan Lewis a thalwyd y diolchiadau gan Carol.

Y mis canlynol, cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol y gangen yn Ysgol Dyffryn Cledlyn, nos Lun, 7 Hydref a chafwyd cwmni Mrs Brenda Wright, Ymgynghorydd i'r Sefydliad. Carol fu'n llywyddu'r cyfarfod a chafwyd adroddiad cryno ganddi hi a Gwen, Is-lywydd ar weithgareddau'r flwyddyn a aeth heibio, yn ogystal ag adroddiad manwl ar drafodion y cyfrifon gan Ceinwen, y Trysorydd. Yna aethpwyd ati i ethol swyddogion am y flwyddyn 2019/20 ac ail-etholwyd pawb i'w swyddi presennol: Llywydd - Carol; Is-lywyddion - Gwen ac Avril; Ysgrifenyddes - Ann Hughes; Trysorydd a Chasglwr Arian y Te - Ceinwen; Trefnwyr y Rhaglen - Gwen ac Ann; Yng ngofal y raffl - Avril; Gohebydd y Wasg - Carol; Cynrychiolwyr ar Bwyllgor Lles y Pentref - Gwen a Carol; Cadw System yr Aelodau ar-lein - Carol. Ar ddiwedd y noson mwynhaodd pawb baned o de a oedd wedi'i ddarparu gan Avril, Mary a Gwen a beirniadwyd y gystadleuaeth fisol, dysgl dal sebon, gan Mrs Wright. Yr enillydd oedd Mary, gyda Gwen yn ail a Shan yn drydydd. Enillwyd y raffl gan Shan a thalwyd y diolchiadau gan Carol. Bydd yr aelodau yn cyfarfod nesaf ar ddechrau mis Tachwedd yn 'Yr Hedyn Mwstard' yn Llambed ac fe gewch yr hanes eto yn y rhifyn nesaf o Clonc.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Twm Ebbsworth, C.Ff.I. Llanwenog ar ennill y dwbl (y Gadair a'r Goron) yn Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion dros y penwythnos.

Priodas Arian

Dathlodd Pete a Meinir Ebbsworth, Brynamlwg eu Priodas Arian yn ystod mis Hydref - llongyfarchiadau gwresog ac iechyd da am y 25mlynedd nesaf.

Eglwys St Luc

Bu dathlu da o'r cynhaeaf eleni eto. Roedd y gwasanaeth yn nwylo'r Parchedig Bill Fillery a chawsom swper i ddilyn yn y Neuadd. Diolch i Gwyneth am drefnu'r bwyd ac i bawb am eu cyfraniad. Bydd rhodd yn cael ei hanfon i Gymorth Cristnogol.O fis Tachwedd ymlaen bydd gwasanaeth anffurfiol ar Sul Cynta'r Mis am 11 o'r gloch. Mae'r Canon Eileen am groesawu ffrindiau hen a newydd i'r oedfa hon.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Yn y Gegin gyda Gareth



Tamaid Mis Tachwedd

Bwydydd cysurlawn a gwresog sydd yn serennu yn y Gegin ym mis Tachwedd. Casgliad hyfryd i'w cadw yn y llyfr coginio. Mae angen prydau cynnes, blasus a maethlon nawr gan fod yr hin yn oeri a'r nosweithiau tywyll yn ymestyn. Felly, pawb at y bwrdd, - mae swper yn barod!

Byddaf nôl yn y Gegin y mis nesaf efo syniadau ar gyfer dathlu'r Nadolig.

Hwyl,
Gareth

Caserol cyflym cig oen

500 g filed cig oen	2 ewin garlleg
500 g tomatos ceirios	ychydig o ddail coriander
2 x 400 g tun ffa menyf	

1. Torrwch y braster o'r cig oen, a'i dorri'n ddarnau. Sgeintiwch â phapur a halen.
2. Torrwch y garlleg, a hanerwch y tomatos. Seliwch y cig oen ag olew mewn sosban. Ychwanegwch y garlleg a'r tomatos; gorchuddiwch, a'i goginio am 25 munud.
3. Ychwanegwch y ffa a'r coriander. Cynheswch, a gweinwch.

Parseli Porc

6 escalop porc wedi eu curo'n denau
3 llwy fwrdd olew'r olewydd
50 g capers
50 g syltanas
25 g cnau pin
100 g ham Parma wedi'i dorri
3 llwy fwrdd briwsion bara
2 llwy fwrdd gwin gwyn 200 g tun tomatos wedi darnio ychydig ddail basil

Dull

1. Torrwch y capers, syltanas a'r cnau. Cymysgwch gyda'r ham a'r briwsion
2. Taenwch bupur a halen dros y cig i'w flasau. Rhannwch y stwffin i 6 rhan, a'i ddodi ar y porc. Rholiwch a chlymchwch â darn o gortyn, neu eu dal at ei gilydd â darn pren.
3. Coginiwch yn yr olew mewn padell ffrio. Ychwanegwch y gwin, tomatos a'r basil. Gorchuddiwch a'u coginio am 15- 20 munud nes yn dyner. Gwaredwch y darnau pren neu'r cortyn, a gweinwch gyda thatws.

Tarten afalau gwahanol

375 g o does pwff	5 afal bwyta
sudd 1 lemn	1 llwy fwrdd siwgr
25 g menyf wedi'i ddarnio	1 llwy de fanila
2 llwy fwrdd jam bricyll	

Dull

1. Trowch y ffwrn i 220 C, 200 Fan, Nwy 7. Rholiwch y toes, a thorrwch yn gylch 35 cm. Gosodwch ar dun pobi wedi ei leinio â phapur
2. Pliciwch a thafellwch yr afalau, a sgeintiwch â sudd lemn. Gosodwch ar y toes, gan adael 2 cm o fframwaith o gwmpas. Codwch ychydig o'r ymyl i osgoi'r sudd afal i orlifo.
3. Gosodwch dameidiau o fenyn ar yr wyneb. Cymysgwch y siwgr a'r fanila, a gwasgarwch dros y cyfan. Pobwch am 20 munud
4. Cynheswch y jam, a brwsiwch dros y darten. Gweinwch yn gynnes gyda chwstard.

Dawns
WELSH GIFTS
Llanbedr Pont Steffan

UNIQUE & PERSONALISED
WELSH GIFTS & CARDS
HANDMADE IN OUR WORKSHOP

VISIT OUR NEW WEDDING DEPARTMENT
01570 423884

£17.50 yw pris
Tanysgrifiad Blwyddyn
Papur Bro Clonc.
Beth am ei brynu fel
anrheg?

Cysylltwch â
Mary Davies,
Ysgrifenyddes Clonc
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Campws Iau Ysgol Bro Pedr
Gadael Tir

Gan—Owen Shiers a Gwilym Morus-Baird
...sioe sy'n archwilio hanes hafnau tir a gorthdyntio yng Nghymru
19 / 11 / 2019 7.30y.h
Noddir y perfformiad gan LAS Recycling, Llanbedr

LAS Recycling Ltd

Mynediad - Oedolion -£5 Plant -£3
Gostyngiad i grwpiau o 10+ -£5
Addas ar gyfer plant 14+oed

TECHNICAL: "Owen Shiers" - 0791961121 "Gwilym Morus-Baird" - 0791961121
"Owen Shiers" - 0791961121 "Gwilym Morus-Baird" - 0791961121
"Gwilym Morus-Baird" - 0791961121 "Owen Shiers" - 0791961121
"Owen Shiers" - 0791961121 "Gwilym Morus-Baird" - 0791961121
"Gwilym Morus-Baird" - 0791961121 "Owen Shiers" - 0791961121
"Owen Shiers" - 0791961121 "Gwilym Morus-Baird" - 0791961121

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

*Cacennau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)
*Bwffe mawr neu fach
*Danteithion i de
*Pwffinau
*Arlwyo ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045



Neuadd y Coroniaid, Pumsaint
yn cyflwyno
John ac Alun a Clive Edwards
Llywydd y Noson:
Mr Eirian Davies, Llanwrda
Nos Sadwrn, 16eg Tachwedd
I ddechrau am 8 o'r gloch
Pris Mynediad - £12.00
Elw'r at West Wales Prostrate a'r Neuadd
Noddwyr y noson - Ieuan a Huw, Llwyndiraid



ARWYN VOB
ACCOUNTANCY LTD.



CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Llanllwni



Plant yn mwynhau yn Amgueddfa Abergwili



Plant yn mwynhau yn Amgueddfa Abergwili



Gwasanaeth diolchgarwch y plant yn yr Eglwys



Prynhawn Coffi i godi arian i MacMillan



Plant cyfnod allweddol 2 yn mwynhau yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin



Gwyneth yn cyflwyno llyfryn “Gemau Buarth” i’r Llysgenhadon Ysgol Llanllwni



Plant y cyfnod sylfaen yn mwynhau “Sbri-di ri” yn Theatr Felinfach

Siarter Iaith - Eirwen, Siôn, Efa, Einir a Liwsi; Eco – Emrys, Eirwen, Alfie, Caio, Aneurin, a Cian; Arweinwyr Digidol- Caio, Pawel, Shanti ac Elliw ; Llongyfarchiadau i chi gyd a phob hwyl gyda’r gwaith. Bu Gwyneth o’r Fenter yn cyflwyno llyfryn “Gemau Buarth” i’r Llysgenhadon ac maent eisoes wedi dechrau gwneud y gweithgareddau gyda’r plant yn ystod egwyl cinio

Penderfynwyd cynnal Prynhawn Coffi er mwyn codi arian i McMillan. Codwyd y swm o £167. Diolch i bawb a ddaeth mewn neu gefnogodd drwy roi cacennau neu roddion ariannol. Aeth Plant Blwyddyn 6 am ddiwrnod pontio i Ysgol Bro Pedr. Mae’n gyfle gwyh iddynt ddechrau paratoi erbyn byddant yn dechrau yno ym Mis Medi. Buom i gyd yng Ngwasanaeth Diolchgarwch y plant yn yr eglwys ddechrau Mis Hydref. Arweinwyd yr oedfa gan yr Archddiacon Eileen Davies a chafwyd anerchiad pwrpasol am yr hydref gan y ficer gwadd sef Delyth Wilson o Abergorlech. Bu plant Blwyddyn 6 yn gweddïo a’r plant i gyd yn canu am y cynhaeaf. Diolch i Mrs. Bethan Hopkins-Jones am gyfeilio i’r plant

Ymunodd plant y Cyfnod Sylfaen yn hwyl y “Sbri-di ri” pan aethant i Theatr Felin-fach.

Mwynheuodd saith o blant yr Adran Iau sef Lena, Tudur, Caio, Alfie, Iestyn, Siôn ac Osian dridiau yn Llain, ger Llanarth lle cawsant gyfle i wneud amrywiaeth o weithgareddau yn yr awyr agored. Yn ein sesiynau Campau’r Ddraig rydyn wedi bod yn datblygu ein sgiliau hoci . Mae plant y Cyfnod Sylfaen a’r Adran Iau yn mwynhau’r sesiynau yn fawr. Rydyn wedi dewis aelodau ar gyfer gwahanol weithgareddau:- Llysgenhadon Efydd – Eirwen, Tudur ac Emrys ; Cyngor Ysgol – Tudur, Iestyn, Osian, Erin ac Elliw;

Roedd gan Sam Ebenezer y ddawn i gael y plant i ganu ac ymuno yn y symudiadau. Ar ddiwedd y sesiwn daeth Mr. Urdd i ymuno yn y canu ac fe gawsom ein llun wedi ei dynnu gydag e. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw. Trefnodd Menter Iaith sioe arbennig i ddathlu diwrnod Shwmae, Sut mae gydag ymweliad Sali Mali. Aethom i Ysgol Llanybydder i'w gweld gan gael sesiwn stori a chanu. Diolch i Ysgol Llanybydder am y croeso. Hefyd trefnodd criw'r Siarter Iaith weithgareddau yn yr awyr agored yn ystod egwyl cinio lle ymunodd pawb yn yr hwyl. Da iawn blant.

Cafodd yr Adran Iau brynhawn diddorol pan ddaeth Rhys Padarn o "Gweithdy Celf Oriel Odli" i greu darn o waith Celf ar thema Cwpan y Byd. Fel rhan o thema'r Cyfnod Sylfaen, "Albwm Y Teulu" fe wahoddwyd mam a'i baban newydd, sef Hayley a Magi Lois, i'r dosbarth. Roedd y plant wedi paratoi cwestiynau i ofyn er mwyn dysgu am anghenion babi. Diolch yn fawr am ddod mewn.

Aethom ar ein taith addysgiadol i Amgueddfa Abergwili a Chanolfan Hamdden Caerfyrddin. Plant y Cyfnod Sylfaen aeth i'r amgueddfa i weld a chael gwersi yn yr hen ysgol. Cawsant ysgrifennu ar lechen a sialc, dweud tablau yn Saesneg a chael stori. Cafodd rhai wisgo'r Welsh Not am siarad yn Gymraeg! Cafwyd amser pleserus iawn.

I'r Ganolfan Hamdden aeth plant Cyfnod Allweddol 2 gan gael eu tywys o amgylch y ganolfan a synnu at gymaint o weithgareddau a phrysurddeb oedd yno. Ar ôl i bawb ymuno fel ysgol am bicnic, aethom i gyd am daith gerdded ar hyd y llwybr o'r Ganolfan i'r orsaf drên

Cofiwch am ein Ffair Nadolig a fydd yn cael ei chynnal ar Ddydd Sadwrn, 7fed o Ragfyr yn yr ysgol am 10 o'r gloch. Bydd yna amrywiaeth o stondinau, raffl, ymweliad Siôn Corn, lluniaeth a charolau gan blant yr ysgol. Cyfle gwych i brynu anrhegion Nadolig. Trefnir y Ffair gan Bwyllgor Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol a'r Ysgol Feithrin. Y Llywyddion bydd Mr. a Mrs. John Jones cyn rheolwyr Y Talardd. Croeso cynnes i bawb alw mewn.

Llongyfarchiadau i Mrs Elonwy Jones, athrawes y cyfnod sylfaen sydd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 60 ar y 1af o Hydref.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol-

Mis Hydref-

1af - £10 – Betsi Morgan c/o Glanafon, Llanllwni.

2ail - £5 - Rose Millership, Glyn, Alltbylaca, Llanybydder.

3ydd - £5 – Iona Marks,

Maesybryn, Llanfihangel-ar-arth.

Priodas Arian

Yn ystod y mis diwethaf dathlodd Geraint a Marian Jones, Highview eu Priodas Arian – gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathliad.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â theulu'r diweddar Dorothy Evans, Gelli a fu farw ar ddiwedd mis Hydref. Bu'r angladd yn breifat yn Eglwys St Luc, Llanllwni.

Eglwys Sant Luc Llanllwni Clwb 100 mis Hydref:

1. £15 Alun Williams (70)
 2. £10 Ken Howells (94)
 3. £10 Parch.Beth Davies (118)
- Diolch am bob cefnogaeth.

Cafwyd gwasanaethau diolchgarwch bendithiol iawn dan arweiniad y Parchedig Delyth Wilson, Abergorlech- plant yr ysgol yn y prynhawn a'r hwyrol weddi am 7. Yn dilyn, ar nos Wener, cynhaliwyd Swper y Cynhaeaf yn y Neuadd gymunedol a chafwyd noson gymdeithasol ddifyr gyda bwyd blasus fel yr arfer. Dechreuodd tymor Undeb y Mamau gydag ymweliad â'r amgueddfa leol yn Llanbed. Cawsom groeso cynnes gan Eifion ac Yvonne, ac orig ddedwydd yn clywed hanes diddorol yr ardal gan Yvonne. Mae'n wir werth mynd yno i ymweld a rhyfeddu. Diolch yn fawr i'r ddau.

Mae teulu'r Eglwys yn cydymdeimlo'n ddiffuant â theulu Mrs. Dorothy Evans, Gelli. Gweddiwn dros y plant Janet, Hywel a Carol, yr wyrion a'r gorwyrion. Fe gafodd Dorothy ofal tyner ar ei haelwyd am amser hir.

Cyngor Bro Llanllwni

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 9 Medi am 8.00yh.

Rhoddodd y Clerc boster yn y Swyddfa Bost o flaen llaw. Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Estynnwyd cydymdeimlad ag Andrew Thomas a'r teulu ar farwolaeth ei dad. Dymunwyd gwellhad buan i Eric Davies yn dilyn llawdriniaeth. Braf oedd gweld pobl ifanc y gymuned yn llwyddiannus mewn marchnadoedd tu allan i Gymru yn ddiweddar sef teulu Beilbedw.

Croesawyd Eleri Morgan, Plismones, i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Trafodwyd yr ardal yn gyffredinol o ran diogelwch.

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau

i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Roedd angen ffensio. Yn dilyn sesiwn syniadau a gynhaliwyd yn y parc ar 08/08/2019, cyflwynwyd syniadau ar ffurf lluniau gan Fferm Wynt Brechfa ar sut i ddatblygu'r cae chwarae i'r dyfodol.

Penderfynwyd ar y canlynol:

- Cysylltu â Western Power am symud y postyn.
- Cysylltu â Daryl Thomas i dderbyn cyngor a chynnal cyfarfod ar y cae chwarae am y canlynol: Cyflenwad trydan i'r cae, Cyflenwad Dŵr, Tanc Carthffosiaeth a phris am gyflwyno cais cynllunio i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Roedd adroddiad o gyfarfod mis Gorffennaf ar y wefan ac wedi ymddangos yn 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader'.

Prosiect y Cyngor Tref a Chymuned yn cynnig newid Goleuadau Cymunedol i Unedau LED. Penderfynwyd derbyn y cynnig gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd y Clerc yn anfon llythyr i Gyngor Sir Caerfyrddin i ddatgan pryder am gyflwr llwybr cyhoeddus Eglwysi Llanllwni - Pontllwni - a gofyn a fyddai'n bosib codi arwyddion.

Gwybodaeth bod pwyllgor wedi ei sefydlu yn Llanfihangel-ar-arth a Llanllwni i godi arian at Eisteddfod yr Urdd Llanymddyfri 2021.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 11 Tachwedd 2019 am 8.00yh.

Cylch Meithrin Llanllwni

Ein themâu ar hyn o'r bryd yw'r cynhaeaf a'r Hydref. Mae'r plant yn mwynhau dysgu sut mae llysiau yn tyfu ac wedi bod yn coginio a bwyta cawl blasus. Cafodd y plant gyfle i ddysgu mwy am y wiwer a'r draenog a buom yn brysur yn eu creu.

Bu'r plant i gyd yn creu cardiau Nadolig a phrintiwyd nhw'n broffesiynol. Bu Just Jae yn tynnu lluniau unigol o'r plant a rhai graddio i'r rhai a fydd yn gadael y cylch meithrin cyn hir. Cafodd y Cylch Meithrin ymweliad gan Estyn. Bydd yr adroddiad yn barod ar ddiwedd y flwyddyn. Hoffai'r pwyllgor a'r staff ddiolch yn fawr i bawb a wnaeth gyfrannu at y parti calan gaeaf - yr oedd yn llwyddiannus iawn.

Braf oedd gweld cymaint o blant wedi gwisgo lan ac yn mwynhau mas draw. Ar ddydd Sul y 17eg o Dachwedd 2019, eto yn Neuadd yr Eglwys yn Llanllwni, fe fydd Suzanne Ryder, ffotograffydd proffesiynol yn cynnig sesiynau ar

gyfer portreadau o'r teulu. Fe fydd angen i chi drefnu amser o flaen llaw. Felly, cysylltwch ag aelod o'r pwyllgor er mwyn gwneud hynny.

Ar y 3ydd o Ragfyr, bydd y cylch yn ymweld â sioe Nadolig Cyw yn ysgol Bro Teifi - edrychwn ymlaen yn fawr at hynny! Cofiwch am ein Ffair Nadolig blyneddol a gynhelir ar y 7fed o Ragfyr 2019 yn ysgol gynradd Llanllwni. Bydd yno stondinau amrywiol, byddwn yn tynnu'r raffl fawr a cheir ymweliad gan Siôn Corn. Ein llywyddion eleni yw John ac Anne Jones. Mae'r tocynnau raffl ar werth erbyn hyn. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Barry Evans, Delfryn, Llanllwni am noddi'r raffl ac i Certas, depot Llandysul am y brif wobr. Cofiwch gysylltu ag aelod o'r pwyllgor am docyn.

Os ydych am fwy o fanylion ynglŷn â Chylch Meithrin Llanllwni, cysylltwch â Nerys ar 01559 395624 neu drwy e-bost cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk. Cofiwch edrych ar ein tudalen Facebook am y newyddion diweddaraf.

Cylch Ti a Fi

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar brynhawniau dydd Mawrth yn ystod y tymor -rhwng 1 a 3 y prynhawn ar gampws yr ysgol gynradd. Pris y sesiwn yw £1.50 y teulu. Croeso i rieni, gofawyr, mamgu's a thadcu's i ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros baned.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.


Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



01570 480 108

07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk

Llanllwni

C.F.F.I. Llanllwni

Mis Hydref – mis yr Eisteddfod! Pinacl y flwyddyn i nifer ohonom, wedi wythnosau prysur o ymarfer. Daeth y Sir ynghyd i Neuadd San Pedr yng Nghaerfyrddin ar gyfer tri diwrnod prysur o gystadlu. Roedd y neuadd yn orlawn a'r clybiau yn cystadlu am y darian a phleser oedd clywed ein bod wedi dod yn bedwerydd yn y darian gwaith cartref, a phumed yn Nharian yr Eisteddfod.

Dyma restr o'r canlyniadau :
1af : Ifor, Hefin a Sioned – Triawd

Doniol. 1af : Owain Davies – Llefaru dan 26. 1af : Hanna a Catrin – Sgent ti dalent?. 1af : Owain, Dan ac Ifor – Ar y Newyddion. 1af : Sioned Howells – Ysgrifennu Limrig. 2il : Owain Davies – Sgent ti dalent? 2il : Sgets. 3ydd : Meimio i Gerddoriaeth. 3ydd : Sioned Bowen – Cerdd dan 26. 3ydd : Cywaith Clwb. 3ydd : Dawnsio Gwerin. 3ydd : Sioned Howells – Brawddeg

Ar ran holl aelodau'r clwb, hoffwn ddiolch i'r holl hyfforddwy, rhieni a chefnogwyr y clwb am bob

cefnogaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Llongyfarchiadau i bawb fuodd wrthi'n cystadlu, a phob lwc i'r rheiny fydd yn cael eu dewis i fynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yn Wrecsam ar y 30ain o Dachwedd.

Cynhaliwyd ein Swper Cynhaeaf ar yr 22ain o Hydref yn Neuadd yr Eglwys, Maes-y-crugiau. Buom yn perfformio nifer o'r eitemau yn yr Eisteddfod, tra bod y gynulleidfa'n mwynhau bowlen flasus o gawl a phwddin! Diolch i bawb a ddaeth i'n Cwrdd Diolchgarwch ar yr 8fed o Hydref, lle godwyd £260 yn ein

casgliad. Fe fydd yr arian hyn yn cael ei roi tuag at Apêl Sir Benfro i Sioe Frenhinol Cymru 2019. Ar ddechrau'r mis, cynhaliwyd cystadleuaeth Torri Cyw Iâr C.F.F.I Sir Gâr. Llongyfarchiadau i Ceiros Thomas am ddod yn ail, ac i Sara Thomas am ddod yn drydydd. Hoffwn hefyd ddymuno pob lwc i'r aelodau fydd yn cystadlu ar ran y clwb ym Mis Tachwedd yng nghystadlaethau'r Sir – Chwaraeon Dan-Do, Barnu Carcas a Siarad Cyhoeddus Saesneg. Cewch yr hanes fis nesa!



Meimo i Gerddoriaeth - 3ydd



Aelodau'r 'Sgets - 2il



Dawnsio Gwerin - 3ydd



Dawnsio Disgo



Cystadleuaeth Torri Cyw iâr a gynhaliwyd ar yr 2il o Hydref lle ddaeth Ceiros Lewis yn 2il a Sara Thomas yn 3ydd



Merched y Parti Deusain

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETHT ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 post@adve.co.uk

Carpedi

Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwniciffwnci@hotmail.com

SiAraDwyR NewYdd!

COLOFN Y DYSCWYR gan Gwyneth Davies

Helo bawb! Dyma stori ddoniol gan Dorette Stephens sy'n byw yn
Llanybydder. Mae Dorette wrth ei bodd yn dysgu siarad Cymraeg.

Stori wir!

Dorette dw i. Dw i'n dod o'r Almaen yn wreiddiol. Es i i Ysgol Ramadeg
hen ffasiwn a ro'n i'n dysgu Saesneg fel ail iaith. Ro'n i'n casáu dysgu
Saesneg achos ro'n i'n gweld yr iaith yn anodd. Yn ddiweddarach, es i i
fyw i Lundain a gweithiais gyda theulu er mwyn fy helpu i ddysgu siarad
Saesneg. Erbyn heddiw, dw i'n gallu siarad Saesneg ond nawr dw i'n dysgu
siarad Cymraeg.

Dw i'n byw ar fferm hyfryd gyda fy nheulu. Dyma stori wir.
Un diwrnod, es i i ffair haf ysgol Gynradd fy mhiant. Roedd cyfle yno i
brynu cacennau a chrefftau. Roedd ocsiwn addewid yno hefyd. Meddyliais
i mai trip i Legoland oedd y peth nesaf i fynd ar ocsiwn. Byddai trip i
Legoland yn neis i fy nheulu meddyliais i. Felly bloeddiais, 'Pum deg punt'.
Clywais rhywun yn dweud 'chwe deg punt.' Felly, sgrechiais i 'saith deg
punt.' Dyna fi wedi cael y trip i Legoland. Wel am bris da meddyliais!

Pan ges i'r tocyn, darllenais beth oedd wedi cael ei ysgrifennu
arno. Ar y tocyn roedd e'n dweud - 'Llongyfarchiadau! You have won a leg
of lamb!' Nid 'Legoland' oedd e ond 'Leg of Lamb'! Fel y gallwch ddyfalu,
aethon ni ddim i Legoland. Beth bynnag, gaethon ni ginio blasus ond roedd
e'n gostus iawn. Mae'n amlwg felly nad oeddwn wedi meistrolu'r Saesneg
wedi'r cwbl!

Dorette



Geirfa i'ch helpu wrth ddarllen

Almaen – Germany
cacennau – cakes
crefftau – crafts
tocyn – ticket
ysgrifennu – write

bloeddio – shout
dyfalu – guess
blasus – delicious
llongyfarchiadau – congratulations
meistrolu – master

Siop Siarad

Dewch i'r Hedyn Mwstard i sgwrsio ac ymarfer eich Cymraeg am 2 o'r
gloch ddydd Iau, Tachwedd 14eg. Bydd Steffan o Cered yn ymuno â ni.
Croeso cynnes i bawb.

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur Yswiriant tŷ/
cynnwys
Tai Bwyta / Siopau Fferm a busnes
Cyfrifoldeb Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk

Mac Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheolodig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Graham Jones

**Gwasanaethau
Cyfrifiaduron**

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12, Stâd Ddiwydiannol
Llanbedr, Heol Tregaron,
Llanbedr.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS
& BOURNE**
CYFREITHWYR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llanbedr**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

**CANOLFAN ADDURNO
AA**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau lleni,
gwasanaeth torri allwedd a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

PHILIP JONES
FINANCIAL SOLUTIONS
Agricultural, Construction and Business Finance

Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
& Busnes • Offer Amaethyddol
ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
Masnachol • Cyfleusterau
Amddiffiniad Offer Newydd a
Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
07757 668339 / 01544 340562
bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
Financial Conduct Authority No FRN 690293

Gwasanaethau Coed Llambed



Cae Celyn, Heol Llanfair,
Llanbedr, SA48 8JX
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.

**W.D.
Lewis**
a' Fab

Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 423540
Fax: 01570 423544
www.wdlewys.co.uk

Hedyn
Bronch Stores
Rumabot, Llanurda
Tel: 01558 650015





Tyngrug-ganol,
Cwmsychbant,
Llanybydder.


Annwyl Ffrindiau,

Wel helo blant, sut ydych chi? Mae mis Tachwedd wedi cyrraedd eleni eto ac mae noson Guto Ffowc yn agosáu! 'Dw i wrth fy modd yn gweld y tân gwyllt ar noson Guto Ffowc ac mi fydda i a'm ffrindiau i gyd yn brysur iawn yn creu coelcerth enfawr. Ydych chi'n hoffi gwylio tân gwyllt? Ble fyddwch chi'n mynd i'w wyllo eleni? Cofiwch blant mae'n bwysig i chi fod yn ofalus ar Noson Guto Ffowc gan fod tân gwyllt yn gallu bod yn beryglus iawn. Rhaid cofio gwisgo menig ac aros yn agos iawn i'ch rhieni. Cofiwch fwynhau hefyd!

Bu llond lle ohonoch chi'n brysur iawn yn ystod y mis yn lliwio llun yr Hydref ac roedd ôl ymdrech i'w weld ym mhob un o'r lluniau. Da iawn chi gyd - penigamp! Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn enwedig i Bela, Tomos, Osian Evans, Elli, Lisa, Seren, Harvey, Alfie, Evelyn, Ianto, Hawys, Erin, Sara, Tomos, Griffudd, Chester, Efan, Ffion, Keeva, Marged, Osian Mills, Rhodri, Beca, Dafydd, Manon, Ellie, Luca, Dewi, Dion, Noa, Megan, Tristan, Hana, Elli, Gwenllian. Arthfael, Damon, Aron, Wil, Charlie ac Aiden o Ysgol Dyffryn Cledlyn, Theo, Declyn, Greta, Cherrie, Sonny, Olive, Celt, Finley, Tom, Dylan, Benson, Evy, Jack, Ollie, Sophia May, Daisy, Nikola, Amy, Noah, Tyler, Logan, Stanley, Eva, Nansi, Ffion, Cal, Elsa, Alis ac Adam o Ysgol Bro Pedr, Aston a Carnog o Ysgol y Dderi, Grug Rees o Fwlchfadfa, Sara Fflur Pugh o Ffair Rhos, Eli-May o Brengwyn, Elli, Grug Davies o Drefach a Soffia ac Efa Draycott Evenden o Llanybydder. Ond ar y brig y mis hwn mae Emrys Hilman o Ysgol y Dderi. Diolch Emrys am ddefnyddio lliwiau'r hydref i liwio llun y wiwer fach. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Ewch ati nawr i liwio llun mis Tachwedd! Danfonwch nhw ataf i cyn dydd Llun, Tachwedd 25ain.

Hwyl am y tro,



Enillydd
y mis!

Emrys
Hilman


Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio symudol
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladdau
- Digwyddiadau Maes
- Peiriant Rhostio Mochyn ar gael

Bar symudol ar gyfer
digwyddiadau allanol
boed yn fawr neu'n fach



Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plentyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo.

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnis cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol

Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref

Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com

true potential
wealth management

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad
Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Bag Siopa Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

7			8	4			1
1			3				6
	3					7	
	9	8	4				
			5	2			
				6	2	1	
		2					9
	6			7			5
8			6	3			4

Ateb Swdocw Hydref

Llongfarchiadau i Rowena
Davies-Franklin, Prengwyn, a
diolch i bawb

arall am gystadlu: Bethan

Thomas, Pontsian; Dai

Jones, Altyblaca;

Sharon Williams, Pencader;

Richard Evans, Olmarch;

Mary Jones, Llanbed;

Hannah Ayonoadu,

Altyblaca; Glenys Davies,

Llanybydder; Eurwyn Davies,

Llanybydder; Elma Phillips, Cellan ac Avril Williams, Cwmann.

5	2	3	7	4	8	9	6	1
7	4	1	9	5	6	2	3	8
6	9	8	1	3	2	7	5	4
8	3	7	6	9	4	1	2	5
4	6	2	5	1	7	8	9	3
1	5	9	2	8	3	4	7	6
2	8	6	4	7	5	3	1	9
3	1	5	8	2	9	6	4	7
9	7	4	3	6	1	5	8	2

DYDD SADWRN 23 TACHWEDD 2019

01570 424776
lampeterevents@uwtsd.ac.uk

FFAIR NADOLIG

**NEUADD Y CELFYDDYDAU,
CAMPWS LLAMBED
12:00 - 4:00PM**

Stondinau - Crefftau - Arddangosfeydd
Groto Sion Corn o 1pm tan 3pm - £2
YN CEFNOGI ELUSENNAU LLEOL



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

all-free-download.com



Eisteddfod C.Ff. I Sir Gâr



Owain Davies, clwb Llanllwni yn ennill y wobwr gyntaf yng nghystadlaethau llefaru 26 neu iau.



Hannah Thomas a Catrin Daniel, clwb Llanllwni yn ennill y wobwr gyntaf am 'Sgent ti Dalent?'



Owain Davies, Dan Jones ac Ifor Jones o glwb Llanllwni yn ennill y wobwr gyntaf yn y gystadlaethau, 'Ar y Newyddion'.



Ifor Jones, Hefin Jones a Sioned Howell o glwb Llanllwni yn ennill y wobwr gyntaf yn y gystadlaethau 'Triawd Doniol'.



Sioned Howells o glwb Llanllwni yn ennill y wobwr gyntaf am y limrig.



Carwen George a Carys Haf, clwb Dyffryn Cothi yn ennill y 3^{edd} wobwr yn y ddeuawd 26 neu iau. Hefyd, enillodd Carwen y wobwr gyntaf yn yr Unawd 26 neu iau.



Clwb Dyffryn Cothi a ddaeth yn gydradd cyntaf yng nghystadlaethau gwaith cartref



Elan Jones, clwb Cwmann yn ennill y wobwr gyntaf yn yr unawd 16 neu iau.



Alpha Evans, clwb Cwmann yn ennill yr 2^{il} wobwr yn yr unawd offerynnol 26 neu iau.

Eisteddfod C.Ff. I Sir Ceredigion



Clwb Llanwenog yn ennill y wobwr gyntaf yng nghystadlaethau 'Meimio i Gerddoriaeth'



Clwb Llanwenog yn ennill y wobwr gyntaf yn y gystadlaethau parti Cerdd Dant